# Adroddiad troseddau casineb a throseddau yn erbyn pobl hŷn

2012-2013

# Cynnwys

Rhagair gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus ..... 2

Crynodeb gweithredol ..... 3

Cyflwyniad ..... 6

Troseddau Casineb ..... 7

Troseddau casineb wedi eu gwaethygu gan hiliaeth a chrefydd ..... 11

Troseddau casineb homoffobaidd a thrawsffobaidd ..... 22

Troseddau casineb anabledd ..... 28

Ysgogi casineb ..... 34

Troseddau yn erbyn pobl hŷn ..... 36

Atodiad Erlyniadau yn ôl Ardal CPS ..... 41

Geirfa ..... 46

# Rhagair gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus

Croesawaf y cyfle i gyflwyno hwn, y chweched adroddiad blynyddol ar droseddau casineb. Rhoddodd Gwasanaeth Erlyn y Goron yr adroddiad cyntaf ar droseddau casineb yn 2005 fel rhan o'n proses adolygu perfformiad. Ers 2005, rydym wedi ymgymryd â nifer o weithgareddau, llawer ohonynt ar y cyd gyda rhanddeiliaid cymunedol ac eraill, i'n helpu i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i ddioddefwyr troseddau casineb ac i wella ansawdd y gwasanaeth yr ydym yn ei ddarparu yn yr achosion yma a all fod yn anodd yn aml. Mae nifer y troseddau casineb a erlynwyd a'n cyfraddau collfarnu ill dau yn sylweddol uwch nag yr oeddynt pan roddwyd yr adroddiad cyntaf.[1] Ond, ers 2010/11 rydym wedi gweld gostyngiad yn y cyfraddau collfarnu a'r nifer o achosion yr ydym yn eu derbyn gan yr heddlu.

Mewn ymateb i'r gostyngiad hwn a amlygwyd yn adroddiad y llynedd bu i ni gynnal ystod o gyfarfodydd a grwpiau ffocws gyda grwpiau cymunedol a'n cydlynwyr arbenigol mewn troseddau casineb i ganfod y rhesymau posibl am y gostyngiad hwn, sydd heb ei debyg o'r blaen. Amlygodd y cyfarfodydd hyn nifer o resymau posibl gan gynnwys nad yw ein dull o nodi achosion o droseddau casineb yn gywir, yr angen i wella'r defnydd o fesurau arbennig a dulliau eraill o roi cymorth i ddioddefwyr a thystion, yr angen i wella ein hansawdd o ddelio ag achosion a diffyg gwybodaeth ymysg rhai erlynwyr wrth erlyn yr achosion hyn yn effeithiol.

Er mwyn ymdrin â rhai o'r materion penodol a amlygwyd gan Ymchwiliad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) i aflonyddwch ar sail anabledd a'r ymchwiliad thematig ar y cyd gan HMCPSI a HMIC, bu i ni ddatblygu cynllun gweithredu ar droseddau casineb anabledd a pheilota 'gweithdy llyw-wyr' i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o droseddau casineb anabledd ymysg staff o asiantaethau eraill. Roedd y gweithdai'n llwyddiannus iawn felly byddant yn cael eu cynnal yn flynyddol.

Bu i ni gychwyn gaith ymchwil hefyd ar y cyd gyda Chymdeithas Prif Swyddogion Heddlu Cymru (ACPO) i edrych ar sut y delir ag achosion troseddau casineb o'r cychwyn i'r diwedd o safbwynt ymchwiliadau gan yr heddlu, er mwyn adnabod unrhyw faterion a allai effeithio ar y gostyngiadau a'r collfarnau. Bydd canlyniadau'r ymchwil hwn ar gael yn gynnar yn 2014.

Mae delio â'r rhesymau posibl am y gostyngiad a'r collfarnau a nodwyd hyd yma, yn cydfynd â fy nhair blaenoriaeth ar gyfer y CPS: gwella safon ein herlyniadau, gwella'r gwasanaeth a ddarparwn ar gyfer dioddefwyr a thystion a darparu'r offer a'r sgiliau sydd eu hangen ar ein staff i wneud eu gwaith yn effeithiol. Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn ymdrin â'r blaenoriaethau hyn yng nghyd-destun troseddau casineb drwy ddatblygu strategaeth a ddefnyddir gennym i ddelio â'r tueddiadau diweddar o ostyngiad.

Mae ymdrin â throseddau casineb yn parhau yn flaenoriaeth i'r CPS a'm gobaith yw y bydd y gweithgareddau yr ydym wedi eu cynllunio o ganlyniad i ymgynghori manwl yn arwain at welliannau yn ein perfformiad dros y flwyddyn sydd i ddod.

**Alison Saunders**
**Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus**
**Ionawr 2014**

---

[1]Y nifer o erlyniadau a gwblhawyd ar draws pob edefyn yn 2005/06 oedd 9,468 gyda chyfradd gollfarnu o 74%. Mae hyn yn cymharu â 2012/13 pan oedd y ffigyrau yn 13,070 ac 82.6%

# Crynodeb gweithredol

Dyma'r chweched Adroddiad Blynyddol Troseddau Casineb a Throseddau yn erbyn Pobl Hŷn. Mae'r adroddiad yn trafod perfformiad yng nghyswllt y troseddau hyn yn ystod 2012/13. Mae'n ceisio darlunio'r perfformiad hwn trwy'r data rheoli sydd ar gael yn ogystal â chanlyniadau cadarnhaol mewn gwaith achos. Mae hefyd yn cynnig enghreifftiau o arfer effeithiol, gwersi a ddysgwyd, datblygiadau ac ymchwil polisi sydd wedi cyfrannu at wella perfformiad.

Yn ychwanegol at yr ymchwil a roddwyd yn yr adroddiad hwn, rydym yn cyhoeddi'r data sylfaenol a ddefnyddiwyd. Gellir gweld y data trwy'r ddolen hon ar wefan y CPS.

Er mwyn gwneud ein data yn fwy hygyrch i'r cyhoedd, mae'r adroddiad yn cyfeirio am y tro cyntaf at gyfraddau collfarnu yn hytrach na'r cyfraddau athreuliad a ddefnyddiwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Yn ychwanegol at berfformiad blynyddol, rydym yn defnyddio data dros y chwe blynedd diwethaf pan fyddant ar gael i dynnu sylw at dueddiadau dros amser.

## Troseddau Casineb

Yn 2012/13, gostyngodd y nifer o achosion troseddau casineb a gyfeiriwyd at y CPS gan yr heddlu i gael penderfyniad 16.7% i 12,306 o 14,781 y flwyddyn flaenorol. Dyma'r ail flwyddyn yn olynol i ni weld gostyngiad yn y nifer a gyfeiriwyd ers 2006/07.

- Gostyngodd y nifer o achosion a gyhuddwyd hefyd yn 2012/13 o 10,845 neu 73.4% o'r holl achosion a ystyriwyd y flwyddyn flaenorol i 8,891 (72.2%). Yn 2006/07, y ffigwr cymharol oedd 8,390 (59.4%).
- Gostyngodd y nifer o gollfarnau yn 2012/13 o 11,843 i 10,794 a gostyngodd y gyfradd gollfarnu hefyd ychydig i 82.6%. Ond, mae'r duedd wedi bod tuag i fyny ers 2006/07, pan oedd y gyfradd gollfarnu yn 76.8%.
- Gwelodd 6 Ardal CPS welliant yn eu cyfraddau collfarnu yn 2012/13.
- Ers 2008/09, mae'r gyfran o ganlyniadau llwyddiannus oherwydd pleon euog wedi cynyddu'n raddol o 9,035 (69.3%) i 9,544 (73.0%). Yn yr un flwyddyn, roedd y gymhareb genedlaethol ar gyfer pob erlyniad yn sefyll ar 68.8%.
- Gall erlyniadau fethu am amrywiaeth o resymau. Gostyngodd yr achosion yn ymwneud â materion dioddefwyr h.y. dioddefwr yn tynnu'n ôl, ddim yn mynd i'r llys neu nad yw eu tystiolaeth yn cefnogi'r achos yn 2012/13 o 23.4% neu 551 o gyfanswm y nifer o achosion troseddau casineb a fethodd yn ystod y flwyddyn flaenorol, i 22.9% neu 521.
- Roedd y mwyafrif o ddiffynyddion (83.3%) ar draws yr edefynnau troseddau casineb yn ddynion.
- Nodwyd bod 71.6% o'r diffynyddion yn perthyn i'r categori Gwyn Prydeinig.
- Roedd 57.7% o ddiffynyddion rhwng 25-59 oed a 27.0% rhwng 18-24 oed.
- Mae'r nifer o rai 10-17 oed sydd yn ddiffynyddion wedi parhau i ostwng o 23.1% yn 2007/08 i 11.9% y llynedd.
- Mae'r CPS yn ymroddedig i gyflawni ein cyfrifoldeb dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a'n hymrwymiadau dan y dyletswyddau cyhoeddus yn neilltuol. Fe wnaethom gytuno ar strategaeth data cydraddoldeb ym Medi 2012 yn y Fforwm Atebolrwydd Cymunedol. Nod y strategaeth yw ymdrin â bylchau mewn data neu ddiffygion ar draws erlyn a chyflogi.
- Mae'r CPS yn cefnogi ystod o gynlluniau trawslywodraethol. Cychwynnodd Bwrdd Strategaeth Troseddau Casineb a drefnwyd ar y cyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Swyddfa Gartref ar y broses o adolygu'r cynllun gweithredu trawslywodraethol ar droseddau casineb: *'Herio, Adrodd, Atal: Cynllun y Llywodraeth i Daclo Troseddau Casineb' (Mawrth 2012)* a chyfrannodd y CPS ato.

- Bu'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus yn ymgynghori ar ganllawiau ar erlyn achosion sy'n ymwneud â chyfathrebiadau a anfonir trwy gyfryngau cymdeithasol. Mae'r canllawiau yn tanlinellu'r potensial i droseddau casineb ddod i'r amlwg yng nghyd-destun yr erlyniadau hyn a pherthnasedd y Cod i Erlynyddion y Goron yn y cyswllt hwn.

## Troseddau casineb wedi eu gwaethygu gan hiliaeth a chrefydd

- Dyma'r drydedd flwyddyn i ni roi adroddiad ar wahân ar droseddau a waethygwyd gan hiliaeth a chrefydd.
- Gostyngodd y nifer o ddiffynyddion a gyfeiriwyd at y CPS gan yr heddlu i gael penderfyniad cyhuddo 16.83% i 10,622 o'r flwyddyn flaenorol. Gostyngodd cyfanswm y nifer o erlyniadau a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn hefyd 8.3% i 11,334.
- Mae'r gyfran o gollfarnau wedi gwella yn gyson o 79.9% yn 2007/08 i 83.1% yn 2012/13, er gwaethaf gostyngiad yn nifer yr erlyniadau yn ystod y cyfnod.
- Fe wnaeth 5 Ardal CPS wella eu cyfraddau collfarnu yn ystod y flwyddyn.
- Mae'r gyfran o gollfarnau gyda phleon euog wedi cynyddu dros y cyfnod o 66.5% yn 2007/08 i 73.6% y llynedd, er gwaethaf gostyngiad yn y cyfanswm cyffredinol.
- Ar ôl gostwng yn raddol ers 2007/08 o 22.5%, cynyddodd y gyfran o droseddau casineb hiliol a chrefydd a fethodd oherwydd materion dioddefwyr yn 2011/12 ond fe ostyngodd ychydig y flwyddyn ddiwethaf i 23.1%.
- O'r 10,935 o droseddau hiliol a erlynwyd y llynedd roedd 9,107 (83.3%) yn llwyddiannus ac roedd 74.0% o'r holl ganlyniadau llwyddiannus yn cynnwys pleon euog. Mae'r gyfradd gollfarnu yn cynrychioli cwymp bychan oddi ar y flwyddyn flaenorol ond mae'n fras yn unol â'r cyfraddau dros y chwe blynedd diwethaf. Mae'r gyfran o bleon euog wedi cynyddu'n raddol dros y cyfnod o 66.4% yn 2007/08 i 74.0% y llynedd.
- Mae'r gyfran o achosion o droseddau casineb hiliaeth sy'n methu oherwydd materion dioddefwyr (23.1%) wedi aros yn fras yr un fath â'r duedd ers 2007/08 (22.4%).
- Yn 2012/13, erlynwyd 399 achos oedd yn cynnwys casineb a waethygwyd gan grefydd gyda chyfradd gollfarnu o 77.2% (308). Roedd 63.4% o'r collfarnau llwyddiannus oherwydd pleon euog. Yn 2011/12, bu 593 erlyniad ac o'r rheini arweiniodd 479 (80.8%) at gollfarnau llwyddiannus, 71.2% oherwydd pleon euog.
- Gostyngodd y gyfran o achosion a fethodd oherwydd materion dioddefwyr o 28.9% (33) yn 2011/12 i 23.1% (21) y llynedd.
- Rydym yn parhau i gyfrannu at waith y Gweithgor Rhag Casineb Gwrth-Fwslimiadd dan arweiniad y Llywodraeth. Paratowyd adroddiad asesu achos ar gyfer y grŵp yn edrych ar ba wersi y gellid eu tynnu o'r erlyniadau presennol.
- Arweiniodd y DPP ddwy drafodaeth genedlaethol ar droseddau a waethygir gan hiliaeth a chrefydd gydag asiantaethau sy'n cefnogi dioddefwyr troseddau casineb i fod yn sail i ddatblygu polisi.

## Troseddau casineb homoffobaidd a thrawsffobaidd

- Mae'r gyfradd gollfarnu ar gyfer troseddau casineb homoffobaidd a thrawsffobaidd wedi gwella o 78.7% yn 2011/12 i 80.7% y llynedd.
- Fe wnaeth 8 Ardal CPS wella eu cyfraddau collfarnu yn ystod y flwyddyn.
- Cynyddodd y gyfran o achosion a arweiniodd at ble euog o 68.5% i 71.6% er bod y nifer o bleon euog wedi gostwng yn ystod y flwyddyn o 827 i 785.
- Gostyngodd y gyfran o achosion a fethodd oherwydd materion dioddefwyr ychydig dros y flwyddyn o (24.5%) 63 yn 2011/12 i (21.8%) 46 y llynedd.
- Fe ddygwyd adolygiad o'r Cyfarwyddyd Rheoli Cydraddoldeb Trawsrywiol i'w ddrafft terfynol gyda chefnogaeth is-grŵp a drefnwyd yn arbennig gan y Fforwm Atebolrwydd Cymunedol.
- Galwyd Panel Craffu Cenedlaethol i asesu ymdrin ag erlyniadau troseddau casineb trawsffobaidd diweddar. Rhoddwyd adborth i'r Ardaloedd oedd yn cyflwyno achosion a pharatowyd adroddiad manylach ar y camau a gymerwyd i ymateb i hynny.

## Troseddau casineb anabledd

- Gostyngodd y nifer o achosion a gyfeiriwyd at y CPS gan yr heddlu i gael penderfyniad cyhuddo yn 2012/13 i 579 o 643 yn 2011/12. Gwelwyd gostyngiad hefyd yn y gyfradd o benderfyniadau i gyhuddo y llynedd i 65%, ar ôl tair blynedd ar 70.0% yn fras ar gyfer pob cyfeiriad o'r fath.
- Cynyddodd y nifer o erlyniadau dros y flwyddyn o 621 yn 2011/12 i 640 y llynedd ac fe wnaeth y gyfran o gollfarnau aros yn gymharol debyg ar 77.2%.
- Fe wnaeth 7 Ardal CPS wella eu cyfraddau collfarnu yn ystod y flwyddyn.
- Gostyngodd y nifer o bleon euog yn y flwyddyn dan sylw ychydig o 424 (68.3%) yn 2011/12 i 418 (65.3%) y llynedd.
- Adnewyddwyd polisi a chyfarwyddyd y CPS ar erlyn troseddau casineb anabledd ac fe'u cyfunwyd mewn un ddogfen, gyfreithiol ddiffiniol yn ystod y flwyddyn gan lunio'r ffurf derfynol ar sail yr arolygiad thematig ar y cyd ar droseddau casineb anabledd.
- Datblygwyd a chafwyd trefn derfynol hefyd ar Gynllun Gweithredu Troseddau Casineb Anabledd gan nodi ystod o ymrwymiadau a fydd yn cael eu goruchwylio gan y Fforwm Atebolrwydd Cymunedol. Gofynnwyd i'r holl Ardaloedd CPS ymwneud ag amcanion y cynllun yn lleol.

## Troseddau yn erbyn pobl hŷn

- Gostyngodd y nifer o achosion a gyfeiriwyd atom gan yr heddlu am y flwyddyn gyntaf ers 2008/09 o 2,987 i 2,832. Mae'r nifer o ddiffynyddion a gyhuddwyd hefyd wedi gostwng ac mae'n awr yn 73.1% o'r holl benderfyniadau cyn cyhuddo.
- Ers 2008/09, mae'r nifer o erlyniadau wedi cynyddu'n gyson o 1,004 i 2,886. Y llynedd, fe wnaeth 81.1% o'r holl erlyniadau arwain at gollfarn o'u cymharu â 81.3% yn y flwyddyn flaenorol.
- Fe wnaeth 6 Ardal CPS wella eu cyfraddau collfarnu yn ystod y flwyddyn.
- Ers 2008/09, mae'r nifer a chyfran o bleon euog wedi cynyddu o 707 (70.4%) i 2,099 (72.7%).
- Mae'r gyfran o achosion sy'n methu oherwydd materion dioddefwyr wedi cynyddu o 14.0% yn 2008/09 i 16.7% yn 2012/13.

# Cyflwyniad

Dyma chweched adroddiad troseddau casineb blynyddol y CPS ac mae'n rhoi gwybodaeth am ein perfformiad wrth erlyn y troseddau canlynol yn 2012/13:

- troseddau casineb hiliol a chrefyddol
- troseddau casineb homoffobaidd a thrawsffobaidd
- troseddau casineb anabledd

Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â'n perfformiad wrth erlyn troseddau yn erbyn pobl hŷn.

Mae Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO) a'r CPS wedi cytuno ar ddiffiniad cyffredin o droseddau casineb:

> "unrhyw drosedd a ddehonglir gan y dioddefydd neu unrhyw unigolyn arall i fod wedi ei hysgogi gan elyniaeth neu ragfarn yn seiliedig ar hil neu hil dybiedig rhywun; crefydd neu grefydd tybiedig; cyfeiriadedd rhywiol neu gyfeiriadedd rhywiol tybiedig; anabledd neu anabledd tybiedig ac unrhyw drosedd a ysgogir gan elyniaeth neu ragfarn yn erbyn rhywun sy'n drawsryweddol neu y tybir ei fod yn drawsryweddol."

Mae'r term "troseddau casineb" yn cynnig llaw-fer i'r heddlu ac erlynyddion a llawer o rai eraill mewn sefydliadau cyhoeddus, cymdeithasau cymunedol a mannau eraill. Y geiriau allweddol yn y diffiniad yw casineb a rhagfarn, geiriau a ddefnyddir yn eu hystyr arferol, bob dydd. Nid oes raid i'r erlyniad felly brofi mai casineb oedd y ffactor ysgogol tu ôl i drosedd. Nid oes raid i'r drosedd gyfan fod wedi ei hysgogi gan gasineb chwaith; gall fod yn ddim ond rhan, yn un elfen o'r ymddygiad troseddol neu gall fod yn unig reswm.

Mae'r CPS yn ceisio meithrin hyder mewn cymunedau y mae troseddau casineb yn effeithio arnynt a gwella tryloywder yn ei ymagwedd. Diben yr adroddiad hwn yw rhoi gwybodaeth glir i'r cyhoedd a chymunedau sy'n dioddef yn benodol am y gwaith yr ydym yn ei wneud wrth ymdrin â throseddau casineb a manylion ein perfformiad wrth erlyn troseddau casineb. Cyflwynir y data gorau sydd ar gael a dynodir y bylchau yn y data.

Mae'r CPS yn casglu data2 i gynorthwyo i reoli ei swyddogaethau erlyn yn effeithiol. Nid yw'r CPS yn casglu data sy'n cael ei gyfrif yn ystadegau swyddogol fel y'u diffinnir yn Neddf Ystadegau a Gwasanaeth Cofrestru 2007.3.

---


[2] Tynnwyd y data ar droseddau casineb o System Reoli Achosion y CPS (CMS) a'r System Rheoli Gwybodaeth gysylltiedig (MIS), sydd, fel gydag unrhyw system gofnodi ar raddfa fawr, yn agored i gamgymeriadau posibl wrth gofnodi a phrosesu data. Mae'r ffigurau yn rhai dros dro ac fe allant newid wrth i ragor o wybodaeth gael ei chofnodi gan y CPS

[3] Mae'r ystadegau swyddogol sy'n ymwneud â throseddau a phlismona yn cael eu cynnal gan y Swyddfa Gartref a'r ystadegau swyddogol sy'n ymwneud â dedfrydu, achosion llys troseddol, dod â throseddwyr i'r llys, y llysoedd a'r farnwriaeth yn cael eu cynnal gan Y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

# Troseddau casineb

Yn 2012/13, y gyfran o gollfarnau ar draws pob edefyn sy'n cael ei fonitro o droseddau casineb oedd 82.6%. Mae hyn yn cymharu â chyfartaledd cyfun y Llysoedd Ynadon a Llys y Goron o 83.5%. Yn ychwanegol mae Graff 1 yn dangos tuedd ar i fyny dros y saith blynedd diwethaf. Mae pleon euog yn cyfrif am 73.0% o'r collfarnau hyn. Mae'r ffigwr hwn yn cymharu â chyfartaledd y Llysoedd Ynadon a Llys y Goron o 70.2%. Mae pleon euog o fantais i ddioddefwyr a thystion oherwydd nid oes raid iddynt fynd i'r llys i roi tystiolaeth; maent hefyd yn lleihau'r oedi trwy alluogi achosion i gael eu dirwyn i ben yn gynt ac ar gostau sylweddol is i'r pwrs cyhoeddus.

**Graff 1: Cyfanswm cyfraddau troseddau casineb 2006/07 hyd 2012/13**




Mae Tabl 1 yn dynodi bod y duedd yn y nifer o erlyniadau a gwblhawyd wedi parhau yn gadarnhaol er gwaethaf gostyngiad yn y cyfanswm blynyddol dros y tair blynedd diwethaf.

**Tabl 1 - Erlyniadau troseddau casineb a gwblhawyd yn ôl canlyniad**

| | | Collfarnau | Aflwyddiannus | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 2006 – 07 | Nifer | 9,621 | 2,914 | 12,535 |
| | % | 76.80% | 23.20% | |
| 2007 - 08 | Nifer | 11,317 | 2,869 | 14,186 |
| | % | 79.80% | 20.20% | |
| 2008 - 09 | Nifer | 10,690 | 2,340 | 13,030 |
| | % | 82.00% | 18.00% | |
| 2009 - 10 | Nifer | 11,405 | 2,516 | 13,921 |
| | % | 81.90% | 18.10% | |
| 2010 - 11 | Nifer | 12,651 | 2,633 | 15,284 |
| | % | 82.80% | 17.20% | |
| 2011 - 12 | Nifer | 11,843 | 2,353 | 14,196 |
| | % | 83.40% | 16.60% | |

| 2012 - 13 | Nifer | 10,794 | 2,276 | 13,070 |
|---|---|---|---|---|
| | % | 82.60% | 17.40% | |

## Perfformiad ardaloedd

Yn 2012/13, dangosir y tair Ardal a berfformiodd orau o ran cyfraddau collfarnu ar draws yr holl droseddau casineb o'u cymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol yn Nhabl 2 isod:

**Tabl 2: Erlyniadau troseddau casineb yn ôl canlyniad gan amlygu'r tair Ardal CPS sy'n perfformio orau o'u cymharu â ffigyrau cenedlaethol**

| | Collfarnau | | Aflwyddiannus | | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | |
| Cenedlaethol | 10,794 | 82.6% | 2,276 | 17.4% | 13,070 |
| Glannau Mersi a Swydd Gaer | 544 | 86.2% | 87 | 13.8% | 631 |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 1,155 | 85.9% | 189 | 14.1% | 1,344 |
| Swydd Efrog a Glannau Humber | 902 | 85.8% | 149 | 14.2% | 1,051 |

Gostyngodd y cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer nifer yr holl achosion o 7.9% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Ni chafodd y duedd hon ei hailadrodd ymhob man ac fe welodd tair Ardal CPS gynnydd yn y cyfansymiau: Swydd Efrog a'r Humber (5.1%), Cymru (2.2%) a Wessex (2.02%). Yn ychwanegol at y gostyngiad cyffredinol hwn, mae'r data ar gyfer 2012/13 yn dangos bod y gyfran o gollfarnau wedi gostwng ychydig o 0.8% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Dylid nodi bod y gyfradd gollfarnu dros amser wedi gwella gyda'r gyfradd llwyddiant yn 2006/07 ar 76.8% (gweler Graff 1 uchod). Lefel yr uchelgais ar gyfer collfarnau troseddau casineb yn 2013/14 yw 85.0%.

Am fwy o fanylion am berfformiad ar lefel Ardal CPS ac ardal llu heddlu, gweler Atodiad 1.

Parhaodd Ardaloedd y CPS i ddatblygu camau blaengar ac effeithiol i gysylltu â chymunedau, dynodi blaenoriaethau ac ymdrin â nhw ac uwchlaw popeth, i geisio gwelliant wrth erlyn troseddau casineb. Bydd y gweithgareddau yn cael eu hasesu i sicrhau bod cymaint â phosibl yn cael ei ddysgu oddi wrth yr arfer da sydd ar gael ac i rannu manteision datblygu Ardal.

**Paneli Craffu ac Ymlyniad Lleol** - Mae paneli ardal yn craffu ar achosion troseddau casineb er mwyn gwella'r modd y gwneir penderfyniadau ac y datblygir polisïau. Maent yn parhau i gyfrannu'n hael at waith y CPS. Bydd yr adborth o bob panel yn cael ei roi ar faterion sy'n cael eu hystyried sy'n rhai gyda goblygiadau cenedlaethol.

Trefnodd CPS Cymru brosiect ar y cyd gyda Sefydliad Addysg Gymunedol Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd ac ysgolion lleol. Gan ddefnyddio cyfuniad o wersi, gweithgareddau ymarferol ac ymweliadau, dylai dysgwyr fedru:

- Rhoi enghraifft o bob un o'r meysydd troseddau casineb.
- Esbonio pam nad yw trosedd yn iawn o ran y CPS a chymdeithas.
- Deall/cydymdeimlo â phrofiadau'r rhai sydd wedi bod yn ddioddefwyr troseddau casineb.

Mae'r manteision a ragwelir i'r prosiect yn cynnwys; gwell ymwybyddiaeth ymhlith y dysgwyr o faes troseddau casineb: gwell gweithdrefnau i roi adroddiad am droseddau casineb: mwy o ymwybyddiaeth o waith y CPS a gwell cysylltiadau rhwng y clwb pêl-droed ag ysgolion ac yn eu tro lefel gweithgareddau corfforol yn gwella.

## Gwaith trawslywodraethol

Rydym yn parhau i gyfrannu at y cynllun gweithredu trawslywodraethol ar droseddau casineb gan gynnwys y Bwrdd Strategaeth Troseddau Casineb a drefnwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Swyddfa Gartref. Bu'r pwyslais canolog eleni ar gyflawni o'i gymharu â'r adroddiad *'Herio, Adrodd, Atal: Cynllun y Llywodraeth i Daclo Troseddau Casineb' (Mawrth 2012)* a pharatoi adroddiad ar gynnydd ar y cynllun erbyn hydref 2013.

Cyfrannodd y CPS at ddatblygu'r strategaeth ar draws y System Cyfiawnder Troseddol a'r cynllun gweithredu, sy'n tynnu sylw at droseddau casineb fel troseddau sy'n cael blaenoriaeth.

Cyfrannodd y CPS at ffurfio adolygiad Comisiwn y Gyfraith o ddeddfwriaeth troseddau casineb.

## Materion cenedlaethol

**Gweithdrefnau Gweithredu Safonol** – Mae gweithdrefnau gweithredu safonol yn cael eu datblygu i sicrhau bod Ardaloedd y CPS yn gweithio mewn modd mwy cyson ac effeithlon. Un o'r Gweithdrefnau cyntaf i gael eu cwblhau oedd yr un ar gyfer Llysoedd Ynadon. Mae'r weithdrefn hon yn cynnwys dolen at arfer gorau a chyfarwyddyd troseddau casineb sy'n bodoli. Bydd agweddau eraill o'r gwasanaeth yn cynnal ymarferion tebyg.

**Ymchwil mesurau arbennig** – Cyflawnodd y CPS brosiect ymchwil i'r defnydd o fesurau arbennig a chyhoeddodd adroddiad yn Awst 2012. Roedd yr ymchwil yn adrodd ar welliannau oedd yn angenrheidiol i nodi'r gofyn am fesurau arbennig; darparu rhesymau manylach dros geisiadau; gwella amseroldeb ceisiadau a dulliau mwy sensitif o siarad â dioddefwyr bregus. Mae'r CPS yn gweithio ar yr argymhellion a wnaed yn yr adroddiad.

**Ymlyniad Cymunedol** – Cyflwynwyd Gweithdai Teithio fel prosiectau peilot mewn rhannau gwahanol o'r wlad. Cynlluniwyd y gweithdai i helpu'r rhai a all glywed gyntaf am ddigwyddiadau o gasineb anabledd e.e. gweithwyr iechyd, swyddogion tai, staff asiantaethau cynghori a all gynnig cefnogaeth i ddioddefwyr troseddau casineb anabledd.

Cynhaliodd y DPP drafodaethau gydag asiantaethau sy'n cefnogi'r rhai sy'n wynebu casineb a waethygir gan hiliaeth a chrefydd. Diben y trafodaethau oedd ceisio barn am bolisi, arferion a pherfformiad y CPS; a'n helpu i ddynodi'r rhwystrau posibl a brofir gan y grwpiau hyn wrth gysylltu â'r gwasanaeth cyfiawnder troseddol.

Rhoddodd is-grŵp i Fforwm Atebolrwydd Cymunedol y CPS, yn cynnwys asiantaethau arbenigol ac unigolion, gefnogaeth i ddiwygio ein Cyfarwyddyd Rheoli Cydraddoldeb Trawsrywiol.

**Canllawiau Cyfryngau Cymdeithasol** -Cyhoeddwyd canllawiau ar erlyn achosion yn ymwneud â chyfathrebiadau a anfonir trwy gyfryngau cymdeithasol ym Mehefin 2013. Maent yn rhoi cyngor i erlynyddion ac yn anelu at gael cysondeb o ran dull wrth ymdrin ag achosion.

Mae'r canllawiau'n tynnu sylw erlynyddion at baragraff 4.12(c) o God Erlynyddion y Goron i ymdrin â phryderon am droseddau casineb ac i dynnu sylw at y modd y mae effaith cyfathrebiadau ar ddioddefwyr yn cael ei ystyried wrth ystyried y ffactorau budd y cyhoedd yng nghyswllt achosion yn ymwneud â chyfathrebiadau a ystyrir yn eithafol o dramgwyddus, anweddus, anllad neu ffug. Dylai erlynyddion yn arbennig ystyried a oes elfen o droseddau casineb yn y cyfathrebiad, wrth asesu'r effaith ar y dioddefwr.

Pan fydd cyfathrebiadau yn cyfateb i fygythiad o drais neu aflonyddu neu stelcio credadwy, gofynnir i erlynyddion ystyried unrhyw dystiolaeth bod y drosedd wedi ei gwaethygu gan hiliaeth neu grefydd neu a oes gwaethygiad oherwydd anabledd, tueddfryd rhywiol neu hunaniaeth drawsrywiol a rhoi sylw arbennig i'r darpariaethau i gynyddu'r ddedfryd.

# Troseddau casineb wedi eu gwaethygu gan hiliaeth a chrefydd

Yn 2012/13, roedd y gyfradd gollfarnu ar gyfer troseddau casineb wedi eu gwaethygu gan hiliaeth a chrefydd yn 83.1%. Mae'r gyfradd hon o lwyddiant yn cymharu â chyfartaledd cyfun collfarnu'r Llysoedd Ynadon a Llys y Goron o 83.5%. Er bod y ffigwr hwn ychydig yn is na'r flwyddyn flaenorol ar 84.2%, mae'n dal yn duedd tuag at wella ers 2007/08, pan oedd y gyfradd yn 79.9%.

**Gweithgor Casineb Gwrth-Fwslimaidd** – Yn ystod y flwyddyn, mae ein cyfraniad at y gweithgorau trawslywodraethol wedi cynnwys asesiad o waith achos yn ymwneud â chasineb gwrth-Fwslimaidd. Cymerwyd sampl o waith achos o bedair Ardal CPS a oedd ar y cyd yn cynrychioli 75% o'r holl droseddau casineb a waethygwyd gan grefydd a erlynwyd yn y flwyddyn flaenorol. Dewiswyd cyfanswm o 76 achos i gyd o droseddau casineb wedi eu gwaethygu gan grefydd ac o'r rheiny roedd rhyw 62% yn cynnwys elfen o deimlad gwrth-Fwslimaidd neu ffactorau a fyddai'n arwydd o gasineb ar y seiliau hyn.

Nododd yr adroddiad ystod a natur y troseddu a nodweddion y dioddefwyr a'r troseddwyr. Roedd y goblygiadau a gododd ar gyfer gweithredu polisi yn cynnwys gwell cofnodi ar ddata personol a phenderfyniadau allweddol, yn ogystal â'r angen am enghreifftiau clir neu astudiaethau achos i gynorthwyo erlynyddion. Nodwyd manteision ymlyniad cymunedol wedi ei dargedu a gwaith Paneli Craffu ac Ymlyniad Lleol hefyd.

**Trafodaeth o Gwmpas y Bwrdd** – Cadeiriodd y DPP ddwy drafodaeth o gwmpas y bwrdd gyda sefydliadau a grwpiau cymunedol y mae eu gwaith yn cefnogi dioddefwyr troseddau casineb a waethygwyd gan hiliaeth a chrefydd. Cynlluniwyd y sesiynau i gefnogi Amcan 2 o Amcanion Cydraddoldeb y CPS 2012/15:

*"Gwella lefel llwyddiant (mwy o erlyniadau a mwy o gollfarnau) mewn erlyniadau ar Droseddau Casineb (gan gynnwys troseddau casineb homoffobaidd a thrawsffobaidd, troseddau casineb sy'n cael eu gwaethygu gan hil a chrefydd, troseddau casineb ar sail anabledd), troseddau yn erbyn pobl hŷn a Thrais yn Erbyn Menywod a Merched (VAWG) a sicrhau gwasanaeth effeithiol i ddioddefwyr a thystion."*

Dynododd yr ymateb nifer o ystyriaethau i'r CPS ac fel ymateb cytunwyd gyda'r Fforwm Atebolrwydd Cymunedol ar gyfres o gamau a gynigiwyd.

**Cylchlythyr Troseddau Casineb** – Llynedd gwelwyd cyflwyno cylchlythyr chwarterol a fwriadwyd i roi gwybod i bobl am ddatblygiadau perthnasol, rhannu arferion effeithiol a rhoi lle i gyfranwyr allanol.

**Astudiaeth Achos**

Dedfrydwyd cyn-gynghorydd yn Swydd Stafford i wyth mis o garchar, a ohiriwyd am 12 mis, ar ôl iddo gael ei ddyfarnu'n euog mewn gwrandawiad cynharach o roi sylwadau hiliol ar wefan un o'r cyfryngau cymdeithasol. Fe'i gorchmynnwyd hefyd i wneud 240 awr o waith di-dâl a thalu costau o £3,500.

Roedd y dyn wedi gwadu dau gyfrif o aflonyddu a waethygwyd gan hiliaeth oedd yn ymwneud ag iaith hiliol a ddefnyddiwyd mewn dwy erthygl ar ei wefan, ond fe'i cafwyd yn euog ar ôl achos llys.


Roedd yr achos hwn yn ymwneud â chyhoeddi blogiau ar safle rhyngrwyd a sefydlwyd gan y diffynnydd. Roedd y blog yn cynnwys erthyglau oedd yn cynnwys iaith y dadleuwyd ei bod yn ymfflamychol ei natur, a fwriadwyd i achosi aflonyddu, dychryn neu boen meddwl i eraill ac oedd wedi ei gwaethygu gan hiliaeth.

Dywedodd Eran Cutliffe, Uwch Erlynydd y Goron CPS Gorllewin Canolbarth Lloegr, "Mae Mr Coleman yn dadlau bod y blogiau wedi eu gwarchod dan y Confensiwn Hawliau Dynol a bod ganddo hawl i ryddid i lefaru. Mae ffeithiau pob achos yn dibynnu ar ei deilyngdod ei hun ac yn dilyn ystyriaeth fanwl ar y dystiolaeth oedd ar gael, fe wnaeth y CPS y penderfyniad i gyhuddo Mr Coleman o drosedd trefn gyhoeddus wedi ei gwaethygu gan hiliaeth. Nid yw felly yn dilyn bod erlyniad yn addas bob tro ond yn yr achos penodol hwn, o ran y dystiolaeth oedd ar gael a chynnwys y blogiau, roedd cyfiawnhad yn wir dros erlyniad troseddol."

## Ystadegau a thablau wedi eu cyfuno

Yn 2012/13 gostyngodd y nifer o ddiffynyddion a gyfeiriwyd at y CPS gan yr heddlu i gael penderfyniad cyhuddo 16.83% i 10,622 o'r flwyddyn flaenorol.  Gostyngodd cyfanswm y nifer o erlyniadau a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn hefyd 8.3% i 11,334.  Er gwaethaf hyn, fel y gellir gweld yn Graff 2 isod, mae'r gyfradd gollfarnu wedi gwella'n gyson ers 2007/08 o 79.9% i 83.1% yn 2012/13.

**Graff 2: Cyfraddau collfarnu troseddau casineb a waethygwyd gan hiliaeth a chrefydd 2007/08 hyd 2012/13**




Mae Tabl 3 isod yn dangos bod y duedd hon mewn collfarnau llwyddiannus wedi parhau mewn cymhariaeth â gostyngiad yn y nifer o erlyniadau am yr un cyfnod.

**Tabl 3 - Erlyniadau a gwblhawyd yn ôl canlyniad**

| | | Collfarnau | Aflwyddiannus | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 2007 - 08 | Nifer | 10,398 | 2,610 | 13,008 |
| | % | 79.90% | 20.10% | |
| 2008 - 09 | Nifer | 9,576 | 2,048 | 11,624 |
| | % | 82.40% | 17.60% | |
| 2009 - 10 | Nifer | 9,993 | 2,138 | 12,131 |
| | % | 82.40% | 17.60% | |
| 2010 - 11 | Nifer | 11,038 | 2,239 | 13,277 |
| | % | 83.10% | 16.90% | |
| 2011 - 12 | Nifer | 10,412 | 1,955 | 12,367 |
| | % | 84.20% | 15.80% | |
| 2012 - 13 | Nifer | 9,415 | 1,919 | 11,334 |
| | % | 83.10% | 16.90% | |

Mae'r gyfran o gollfarnau gyda phleon euog wedi cynyddu dros y cyfnod o 66.5% yn 2007/08 i 73.6%. Mae'r gyfran gynyddol o bleon euog yn awgrymu bod achosion yn cael eu paratoi yn well ac yn cael eu dwyn i'r llys yn gyflymach. Mae hyn yn fanteisiol i'r dioddefwyr a'r tystion gan nad oes rhaid iddynt fynychu'r llys i roi tystiolaeth ac mae mantais o ran cost hefyd.


Gall erlyniadau fethu am amrywiaeth o resymau.  Fe wellodd yr achosion yn ymwneud â materion dioddefwyr h.y. dioddefwr yn tynnu'n ôl, ddim yn mynd i'r llys yn annisgwyl neu nad yw eu tystiolaeth yn cefnogi'r achos, am nifer o flynyddoedd ers 2007/08 pan oedd y gyfran yn 22.5%.  Ond, fe gynyddodd y gyfran a fethodd oherwydd materion dioddefwyr yn 2011/12 ond fe ostyngodd eto'r flwyddyn ddiwethaf i 23.1%.

## Troseddau casineb a waethygwyd gan hiliaeth

Yng nghyswllt troseddau casineb a waethygwyd gan hiliaeth, gostyngodd cyfanswm y nifer o ddiffynyddion a gyfeiriwyd at y CPS gan yr heddlu i gael penderfyniad cyhuddo am y drydedd flwyddyn yn 2012/13 i 10,330 ac o'r rheiny cyhuddwyd 72.8%.

O'r 10,935 o droseddau hiliol a erlynwyd y llynedd roedd 9,107 (83.3%) yn llwyddiannus ac roedd 74.0% o'r holl ganlyniadau llwyddiannus yn cynnwys pleon euog.  Mae'r gyfradd gollfarnu yn dangos gostyngiad bychan oddi ar y flwyddyn flaenorol ond fel y gellir gweld o Graff 3 isod, mae'n cyfateb yn fras i'r hyn a welwyd dros y chwe blynedd diwethaf.

**Graff 3: Cyfraddau collfarnu troseddau casineb a waethygwyd gan hiliaeth 2007/08 hyd 2012/13**




Dengys Tabl 4 isod, ers 2007/08, bod y duedd gyffredinol yn y nifer o erlyniadau wedi gostwng o 12,829 i 10,935 er bod y gyfran o gollfarnau wedi cynyddu dros yr un cyfnod o 79.9% i 83.3%.

**Tabl 4 - Erlyniadau a gwblhawyd yn ôl canlyniad**

| | | Collfarnau | Aflwyddiannus | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 2007 - 08 | Nifer | 10,254 | 2,575 | 12,829 |
| | % | 79.90% | 20.10% | |
| 2008 - 09 | Nifer | 9,306 | 1,982 | 11,288 |
| | % | 82.40% | 17.60% | |
| 2009 - 10 | Nifer | 9,750 | 2,089 | 11,839 |
| | % | 82.40% | 17.60% | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2010 - 11 | Nifer | 10,566 | 2,145 | 12,711 |
| | % | 83.10% | 16.90% | |
| 2011 - 12 | Nifer | 9,933 | 1,841 | 11,774 |
| | % | 84.40% | 15.60% | |
| 2012 - 13 | Nifer | 9,107 | 1,828 | 10,935 |
| | % | 83.30% | 16.70% | |

Mae'r gyfran o bleon euog dros yr un cyfnod wedi cynyddu'n raddol o 66.4% yn 2007/08 i 74.0% y llynedd.


Mae'r gyfran o erlyniadau am droseddau casineb hiliaeth aflwyddiannus sy'n methu oherwydd materion dioddefwyr (23.1%) wedi aros yn fras yr un fath â'r duedd ers 2007/08 (22.4%). Mae'r ffigwr ar gyfer dioddefwr ddim yn dod i'r llys yn annisgwyl wedi aros ar ddwywaith yr hyn a welir ar ddata cymharol ar gyfer troseddau eraill.

## Troseddau casineb a waethygwyd gan grefydd

Gostyngodd cyfanswm y nifer o ddiffynyddion a gyfeiriwyd at y CPS gan yr heddlu i gael penderfyniad cyhuddo am yr ail flwyddyn yn 2012/13 i 292 ac o'r rheiny cyhuddwyd 72.6%.

Yn 2012/13, erlynwyd 399 achos oedd yn cynnwys casineb a waethygwyd gan grefydd gyda chyfradd gollfarnu o 77.2%. Roedd 63.4% o'r collfarnau llwyddiannus yn cynnwys pleon euog. Fel y gellir gweld yn Graff 4, mae'r gyfradd gollfarnu wedi gostwng ychydig dros y cyfnod ers 2007/08.

**Graff 4: Cyfanswm troseddau casineb a waethygwyd gan grefydd**




Yn Nhabl 5 gwelir amrywiadau sylweddol yn y nifer o erlyniadau a gwblhawyd dros y cyfnod o chwe blwyddyn adrodd. Yn ychwanegol, mae'r gyfradd gollfarnu wedi amrywio yn sylweddol dros y cyfnod.

**Tabl 5 - Erlyniadau a gwblhawyd yn ôl canlyniad**

| | | Collfarnau | Aflwyddiannus | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 2007 - 08 | Nifer | 144 | 35 | 179 |
| | % | 80.40% | 19.60% | |
| 2008 - 09 | Nifer | 270 | 66 | 336 |
| | % | 80.40% | 19.60% | |
| 2009 - 10 | Nifer | 243 | 49 | 292 |
| | % | 83.20% | 16.80% | |
| 2010 - 11 | Nifer | 472 | 94 | 566 |
| | % | 83.40% | 16.60% | |
| 2011 - 12 | Nifer | 479 | 114 | 593 |
| | % | 80.80% | 19.20% | |
| 2012 - 13 | Nifer | 308 | 91 | 399 |
| | % | 77.20% | 22.80% | |

Gostyngodd y gyfran o achosion a fethodd oherwydd materion dioddefwyr o 28.9% yn 2011/12 i 23.1% y llynedd.

Mae'r nifer o droseddau casineb a waethygwyd gan grefydd wedi parhau yn isel ac mae felly yn anodd dynodi tueddiadau ystyrlon.

Yn y tymor hirach, dylai gwahanu data erlyn yn ymwneud â throseddau hiliol a chrefydd gynnig darlun manylach a mwy defnyddiol o'r profiad o droseddau casineb o fewn cymunedau yn ogystal â'i effaith yn y dyfodol. Dylai effaith y nifer isel o droseddau casineb a waethygwyd gan grefydd a gyfeiriwyd ac a erlynwyd barhau yn ystyriaeth wrth ddadansoddi'r data ac mae'n cynnid dadl dros gael archwiliad mwy arferol ar achosion gan Baneli Craffu ac Ymlyniad Lleol i sicrhau bod yr hyn sy'n cael ei ddysgu yn cael ei ddefnyddio wrth ymdrin ag achosion.

Ar ddiwedd erlyniad, mae pob diffynnydd yn cael **prif gategori trosedd** i ddangos math a difrifoldeb y cyhuddiadau a wnaethpwyd. Troseddau yn erbyn yr unigolyn a throseddau trefn gyhoeddus oedd y mwyaf cyffredin yn cynrychioli 81.7% o'r holl erlyniadau troseddau a waethygwyd gan hiliaeth neu grefydd (50.0% a 31.7% yn y drefn honno). Gwelodd y pedair blynedd diwethaf o adrodd newid yn y prif gategorïau trosedd gyda throseddau yn erbyn yr unigolyn yn cynyddu o 8.5 o bwyntiau canran dros y cyfnod a throseddau trefn gyhoeddus yn gostwng o 9.7 pwynt canran.

**Mae'r Diffynyddion** mewn troseddau casineb a ysgogwyd gan hiliaeth a chrefydd yn ddynion yn bennaf (83.4%) a Gwyn Prydeinig (71.6%). Roedd 58.0% yn 25-59 oed a 27.0% arall rhwng 18-24 oed. Mae'r gyfran o ddiffynyddion 10-13 oed a 14-17 oed yn parhau i ostwng o 2.6% a 20.2% yn y drefn honno yn 2007/08 i 1.3% a 10.3% y llynedd.

**Mae'r Dioddefwyr** yn ddynion yn bennaf ar (58.2%) ac mae 25.5% yn fenywod. Mae'r gyfran o ddioddefwyr yr ydym wedi dynodi rhyw wedi gwella ers 2007/08 pan oedd yn 44.0%, ond y llynedd, roedd y ffigwr wedi cynyddu i 83.7%. Rydym yn parhau i weithio i wella'r ffigwr hwn gyda data arall demograffig am ddioddefwyr troseddau casineb.

Roedd y rhan fwyaf o'r dioddefwyr (63.0%) rhwng 25 a 59 oed gyda 12.6% arall rhwng 18 a 24 oed. Ers 2007/08, mae'r gyfran o achosion pan gofnodwyd oedran y dioddefwr wedi cynyddu o 41.0% i 81.9%.

Er bod y gyfran o achosion pan fydd data ethnigrwydd ar gael wedi cynyddu o 22.8% yn 2007/08 i 48.5% yn 2012/13, mae'n amlwg bod llawer mwy i'w wneud.

## Perfformiad ardaloedd

Yn 2012/13, dangosir y tair Ardal a berfformiodd orau o ran cyfraddau collfarnu ar draws yr holl droseddau casineb a waethygwyd gan hiliaeth a chrefydd o'u cymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol yn Nhabl 6 isod:

**Tabl 6: Erlyniadau troseddau casineb a waethygwyd gan hiliaeth a chrefydd yn ôl canlyniad yn amlygu'r tair ardal CPS sy'n perfformio orau o'u cymharu â ffigyrau cenedlaethol**

| | Collfarnau | | Aflwyddiannus | | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | |
| Cenedlaethol | 9,415 | 83.1% | 1,919 | 16.9% | 11,334 |
| Glannau Mersi a Swydd Gaer | 443 | 88.8% | 56 | 11.2% | 499 |
| Cymru | 453 | 86.9% | 68 | 13.1% | 521 |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 1,019 | 86.2% | 163 | 13.8% | 1,182 |

Y ddwy ardal a welodd gynnydd yn y niferoedd dros y flwyddyn ddiwethaf oedd Swydd Efrog a Glannau Humber (6.9%) a Wessex (4.4%).

**Astudiaeth achos**
Yn Rhagfyr 2012, daethpwyd o hyd i ben mochyn gan aelod o'r gynulleidfa mewn Canolfan Gymunedol yng Nghaerlŷr, oedd yn cael ei defnyddio ar y pryd fel man addoli gan grŵp gweddïo Mwslimaidd.

Y flwyddyn cynt, roedd gan y grŵp ddiddordeb mewn defnyddio hen Gut i'r Sgowtiaid nad oedd yn cael ei ddefnyddio a hynny wedi achosi tensiwn mawr yn lleol wrth i wrthwynebiad gynyddu. Arweiniodd hyn at sylw yn y cyfryngau cenedlaethol ac i arweinydd y British National Party fynd i brotestiadau yno.

Pan wnaeth y tyst ddarganfod y pen, fe gododd ddychryn mawr arno a galwodd yr Imam oedd yno. Dywedodd yr Imam wrth yr heddlu bod defnyddio mochyn wedi achosi sioc a thramgwyddo ei gyd-aelodau ac yntau, gan fod rhaid iddyn nhw gamu dros y pen mochyn i fynd i'r neuadd gymunedol i weddïo.

Ddeuddydd yn ddiweddarach, arestiodd yr heddlu'r diffynnydd ar sail cudd-wybodaeth a roddwyd i'r heddlu gan brotestwyr. Cafodd ei gyfweld dair gwaith, ac yn y trydydd cyfweliad, fe gyfaddefodd i'r drosedd yn llawn. Nododd ei fod wedi cael y pen mochyn o briodas yr oedd wedi bod ynddi gyda ffrindiau yn gynharach yn y flwyddyn. Roedd wedi cael y pen mochyn er mwyn gwneud rhywbeth "gwirion". Roedd y diffynnydd wedi cadw'r pen mochyn yn ei rewgell ac yna yn oriau mân 26 Rhagfyr 2012 wedi rhoi'r pen mochyn wrth y fynedfa i'r ganolfan gymunedol. Nododd ei fod wedi gwneud hyn 'heb feddwl' ac nad oedd neb arall wedi ei orfodi na dylanwadu arno.

Dywedodd y Barnwr Ardal: "Roeddech yn gwybod yn iawn beth oedd arwyddocâd eich gweithred. Fe wyddech y byddai'r hyn a wnaethoch yn achosi gofid. Yn wir, dyna oedd eich bwriad.

"Fe osodwyd y pen mochyn yn y fath fodd fel na ellid ei osgoi gan neb, gan gynnwys plant ifanc o bosibl, a fu mor anffodus â mynd i'r adeilad y bore hwnnw. Hawdd yw dychmygu'r sioc, y gofid a'r ffieidd-dod y bydden nhw wedi ei deimlo.

"Ond mae'r niwed a wnaethoch chi yn mynd ymhellach. Byddai wedi effeithio ar eraill yn y gymuned a thu hwnt hefyd wrth i'r newyddion am y digwyddiad wasgaru, gan ysgogi dychryn dwfn, ofn ac ansicrwydd. Fe ddylai fod wedi bod yn amlwg bod yr hyn a wnaethoch chi yn codi ofn ac na fyddai'n gwneud dim ond gwaethygu sefyllfa oedd yn llawn tyndra ac yn beryglus yn barod."

Dywedodd bod y drosedd mor ddifrifol fel mai dim ond dedfryd o garchar a ellid ei chyfiawnhau. Ond roedd edifeirwch y diffynnydd, ei gymeriad da cyn hynny, ei waith yn y gymuned a'r ffaith ei fod yn "hynod annhebygol o ymddangos ger bron llys troseddol eto" yn golygu y byddai'r ddedfryd yn cael ei gohirio.

Rhoddwyd dedfryd o 12 wythnos i'r diffynnydd wedi ei ohirio am 12 mis. Gorchmynnodd y barnwr y diffynnydd i gyflawni 250 awr o waith di-dâl a thalu costau o £85.

**Astudiaeth Achos**

Arestiwyd y diffynnydd yn wreiddiol yn Rhagfyr 2011, ar ôl i ddau lythyr gael eu hanfon at Westborough Spiritualist Church yn Scarborough, Gogledd Swydd Efrog. Cyfeiriwyd un o'r llythyrau at y Gweinidog a'r ail at ei gŵr. Aed â'r ddau lythyr â llaw i'r Eglwys. Roedd y llythyrau yn ymosod ar gred grefyddol y cwpl.

Mewn cyfweliad, fe wnaeth y diffynnydd gyfaddef ei fod wedi anfon y llythyrau, gan gynnwys ysgrifennu ac argraffu'r cynnwys a dywedodd mai dyma'r llythyr olaf y byddai'n ei anfon. Dywedodd ei fod yn ceisio achub y bobl yma rhag uffern. Pan esboniwyd y diffiniad o aflonyddu iddo, nododd ei fod yn derbyn y gallai'r llythyr gael ei ystyried yn aflonyddu. Rhoddwyd rhybudd aflonyddu iddo.

Yn Ionawr 2012, derbyniodd yr heddlu adroddiad gan y Gweinidog yn nodi ei bod wedi derbyn llythyr newydd gan y diffynnydd yn yr Eglwys ac fe'i harestiwyd. Nododd mai ef oedd wedi anfon y llythyr hwn, ond ei fod wedi ei anfon cyn cael ei arestio'r tro cyntaf. Roedd y Gweinidog yn bendant bod y llythyr wedi cyrraedd ar ôl i'r diffynnydd gael ei arestio'r tro cyntaf. Cyhuddwyd y diffynnydd o aflonyddu a waethygwyd gan grefydd.

Wrth gyflawni'r drosedd hon, roedd hefyd wedi torri gorchymyn atal arno i'w atal rhag cysylltu ag aelod arall o'r Eglwys yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol a rhag mynd i ardal benodol. Felly fe'i cyhuddwyd o dorri gorchymyn atal.

Dedfrydwyd y diffynnydd i 6 mis o garchar wedi ei ohirio am 2 flynedd a gorchymyn atal 5 mlynedd ar ei gollfarnu i'w atal rhag cael unrhyw gyswllt yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, â'r Gweinidog, ei gŵr na'r aelod arall yr effeithiodd arno yn yr Eglwys.

**Dysgu gwersi**

Roedd i’r drafodaeth o gwmpas y bwrdd genedlaethol y cyfeirir ati uchod ddau nod bras:

1. Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i grwpiau a sefydliadau am waith y CPS o ran troseddau casineb hiliol a chrefyddol.
2. Cael adborth gan bartneriaid cymunedol ar:
    a. Ddata Troseddau Casineb y CPS 2011/12;
    b. Polisi cyfredol y CPS ar droseddau hiliol a chrefyddol; a
    c. Sut y gall y CPS yn genedlaethol wella profiadau dioddefwyr a thystion wrth gefnogi erlyn troseddau casineb hiliol a chrefyddol.

Dynododd yr ymateb nifer o ystyriaethau i’r CPS. Rhoddir y rheiny isod ac fel ymateb, disgrifir y camau arfaethedig hefyd:

Sut i wella ansawdd data demograffig a ddelir ar ddioddefwyr a thystion.  Trwy weithredu’r Cynllun Gweithredu Data Cydraddoldeb

Ystyried canlyniadau cynlluniau treialu Cyfiawnder Adferol wrth bennu a ddylid adolygu polisi’r CPS o ran gwaredu achosion tu allan i’r llys ar gyfer troseddau casineb. Mae’r cynllun treialu wedi ei atal ar hyn o bryd. Trafodaeth drawslywodraethol yn digwydd ar y cynlluniau treialu a dulliau eraill o waredu tu allan i’r llys.

Rhinweddau cynhyrchu polisïau ar wahân ar gyfer troseddau a waethygwyd gan hiliaeth a chrefydd. Trafodaeth gyda’r Gyfarwyddiaeth Strategaeth a Pholisi am y dewisiadau i dynnu sylw at droseddau a ysgogwyd gan grefydd a’u herlyn

Sut ddylai troseddau casineb gael eu nodi mewn cyfarwyddyd ar gyfer erlyniadau yn ymwneud â chyfathrebu trwy gyfryngau cymdeithasol.  Trafodaethau wedi’u cynnal gyda’r Gyfarwyddiaeth Strategaeth a Pholisi ac argymhellion wedi eu gwneud. Cyhoeddwyd cyfarwyddyd ym Mehefin 2013

Sut i wella data ar y nifer o achosion a symudwyd ymlaen gan dynnu’r elfen waethygol a’r pwynt pan wnaeth y cyhuddiad gael ei leihau. Dynodi data presennol ac ystyried dewisiadau i wella data

Sut i wella strategaethau i ennyn ymlyniad cymunedol gyda chymunedau newydd a phobl ifanc. Trafod y gweithgarwch a’r dewisiadau presennol gyda’r Ardaloedd

Sut gallwn ni gyfleu gwybodaeth am ganlyniad achosion yn ychwanegol at y data perfformiad sydd ar gael ar hyn o bryd i gynyddu ymwybyddiaeth a hyder yn y ffordd y mae’r troseddau yma yn cael eu trin. Ystyried dewisiadau ar gyfer cryfhau dealltwriaeth o effaith erlyn.

Ystyriwyd yr awgrymiadau a’r camau gweithredu yma gan y Fforwm Atebolrwydd Cymunedol a chytunwyd arnynt.

**Gweithio gyda'n gilydd**

Mae Aelodau o'r Panel Craffu Troseddau Casineb Hiliol a Chrefyddol yn **CPS Gogledd Ddwyrain Lloegr**, ynghyd â'r Rheolwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ac Ymlyniad Cymunedol, wedi darparu hyfforddiant i Swyddogion Gofal Tystion. Nod y sesiynau oedd cryfhau'r ddealltwriaeth o anghenion dioddefwyr a thystion o gymunedau duon, lleiafrifoedd ethnig a ffydd. Roedd yr adborth yn gadarnhaol iawn gyda llawer o'r rhai a gymerodd ran yn cyfeirio at werth clywed yn uniongyrchol gan aelodau'r Panel. Bydd yr hyfforddiant hwn yn cael ei gyflwyno i Unedau Gofal Tystion eraill yn yr Ardal.

Mae **CPS Gogledd Orllewin Lloegr** yn chwilio am gyfleoedd i gael adborth gan ystod o gymunedau er mwy gwella perfformiad. Enghraifft o hyn yw datblygu DVD troseddau casineb hiliol a chrefyddol ar gyfer ysgolion. Ym Mai 2012, aeth Ardal Gogledd Orllewin Lloegr â 4 sefyllfa ddrafft i ddigwyddiad Troseddau Casineb Hiliol a Chrefyddol yn Blackburn. Daeth pedair ysgol o bob rhan o Swydd Gaerhirfryn i'r digwyddiad gyda chyfanswm o 165 o blant yn cyfrannu at y diwrnod. Dangoswyd pedair o'r saith sefyllfa ac ar sail yr ymateb cynhyrchwyd tair sefyllfa arall. Aed ati hefyd i wella'r pedair sefyllfa a drafodwyd o ganlyniad i sylwadau a dderbyniwyd. Ceisiwyd adborth hefyd gan aelodau paneli craffu i ddatblygu'r pecyn adnoddau.

# Troseddau casineb homoffobaidd a thrawsffobaidd

Yn 2012/13 cododd y gyfradd gollfarnu ar gyfer yr holl erlyniadau homoffobaidd a thrawsffobaidd i 80.7%, sy'n fras yn unol â'r cyfartaledd dros y chwe blynedd ac er gwaethaf gostyngiad yng nghyfanswm yr erlyniadau am y flwyddyn.

**Ymestyn Cynyddu Dedfryd -** Trwy gyflwyno'r ddarpariaeth yn adran 65 o Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi 2012 fe welwyd adran 146 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 yn cael ei diwygio i gynnwys darpariaeth ar gyfer cynyddu dedfryd parthed troseddau a ysgogwyd gan gasineb ar sail hunaniaeth drawsrywiol neu hunaniaeth drawsrywiol dybiedig. Daeth y ddarpariaeth i rym yn Rhagfyr 2012.

**Cyfarwyddyd Rheoli Cydraddoldeb Trawsrywiol** - Yn dilyn adolygiad gwaith achos o'r modd y gwnaeth y CPS ymdrin â throseddau casineb trawsffobaidd yn 2011, bu'r is-grŵp Cydraddoldeb Trawsrywiol o'r Fforwm Atebolrwydd Cymunedol yn gweithio dros y flwyddyn i ddiweddaru'r cyfarwyddyd hwn i reolwyr. Dygwyd adolygiad o'r ddogfen i'w drafft terfynol a nodwyd nifer o gamau nesaf i'w hyrwyddo.

**Panel Craffu Cenedlaethol -** trefnwyd a chyflwynwyd gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus. Roedd y panel yn cynnwys arbenigwyr a'r rhai ag arbenigedd penodol ym maes troseddau casineb trawsffobaidd a naill ai yn cyfrannu'n barod at y Paneli Craffu Troseddau Casineb Ardal neu yn dod o asiantaethau sy'n benodol yn cefnogi dioddefwyr troseddau casineb trawsffobaidd. Nod cyffredinol y diwrnod oedd asesu sut yr ymdriniwyd ag erlyniadau troseddau casineb trawsffobaidd diweddar a chynnig unrhyw wersi a ddysgwyd yn ôl i'r Ardaloedd oedd yn cyflwyno achosion i'r adolygiad.


Mae'r Fforwm Atebolrwydd Cymunedol wedi cytuno ar gynllun i ddwyn yr edefynnau hyn o waith at ei gilydd i'w goruchwylio gan is-grŵp a drefnir eto ar Gydraddoldeb Trawsrywiol.

## Ystadegau a thablau wedi eu cyfuno

Gostyngodd y nifer o ddiffynyddion a gyfeiriwyd atom ar gyfer penderfyniad cyhuddo gan yr heddlu ychydig o 1,366 i 1,105. Dros yr un cyfnod, roedd y gyfran o gyfeiriadau a arweiniodd at benderfyniad i gyhuddo wedi aros yr un fath yn fras ar 70.4% (778). Mae'r nifer a'r gyfran o benderfyniadau i gyhuddo wedi parhau i gynyddu ers 2007/08 pan oedd yn 758 (62.2%).

Mae'r gyfradd gollfarnu ar gyfer troseddau casineb homoffobaidd a thrawsffobaidd (gweler Graff 5 isod) wedi gwella o 78.2% yn 2007/08 i 80.7% y llynedd.

**Graff 5: Cyfanswm cyfraddau troseddau casineb homoffobaidd a thrawsffobaidd 2007/08 hyd 2012/13**




Fel y gwelir yn nhabl 7, gostyngodd cyfanswm y nifer o erlyniadau a gwblhawyd dros y flwyddyn ond mae'r duedd ers 2007/08 wedi bod ar i fyny.

**Tabl 7 - Erlyniadau a gwblhawyd yn ôl canlyniad**

| | | Collfarnau | Aflwyddiannus | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 2007 - 08 | Nifer | 778 | 217 | 995 |
| | % | 78.20% | 21.80% | |
| 2008 - 09 | Nifer | 815 | 198 | 1,013 |
| | % | 80.50% | 19.50% | |
| 2009 - 10 | Nifer | 929 | 223 | 1,152 |
| | % | 80.60% | 19.40% | |
| 2010 - 11 | Nifer | 1,034 | 247 | 1,281 |
| | % | 80.70% | 19.30% | |
| 2011 - 12 | Nifer | 951 | 257 | 1,208 |
| | % | 78.70% | 21.30% | |
| 2012 - 13 | Nifer | 885 | 211 | 1,096 |
| | % | 80.70% | 19.30% | |

Gostyngodd y nifer o bleon euog am yr ail flwyddyn yn olynol o 827 i 785 er bod y gyfran o achosion oedd yn cynnwys ple euog wedi cynyddu unwaith eto o 68.5% i 71.6%.

Fe wellodd y nifer o achosion a fethodd oherwydd materion dioddefwyr ychydig dros y flwyddyn o 63 (24.5%) yn 2011/12 i 46 (21.8%) y llynedd.

Ar ddiwedd erlyniad, mae achosion yn cael **prif gategori trosedd** i ddangos math a difrifoldeb y cyhuddiadau a wnaethpwyd. Yn 2012/13, troseddau yn erbyn yr unigolyn a throseddau trefn gyhoeddus oedd y mwyaf cyffredin yn cynrychioli 83.4% o'r holl erlyniadau troseddau homoffobaidd a thrawsffobaidd (51.8% a 31.6% yn y drefn honno).

Roedd 85.9% o **ddiffynyddion** yn ddynion a 70.3% yn Wyn Prydeinig. Roedd y rhai rhwng 25 a 59 oed yn cyfrif am 54.4% gyda 28.3% arall rhwng 18 a 24 oed. Mae o ddiddordeb bod y gyfran o rai 10-13 oed a 14-17 oed oedd yn ddiffynyddion wedi gostwng o 2.3% a 24.8% yn y drefn honno yn 2007/08 i 1.5% a 12.0% yn 2012/13.

Yr hyn a wyddom ynglŷn â **dioddefwyr** yw bod 50.5% yn ddynion a 30.6% yn fenywod. Mae'r nifer o ddioddefwyr pan gofnodwyd eu rhyw (81.1%) wedi gwella yn raddol ers 2007/08 pan oedd yn 47.7%. Fodd bynnag, rydym yn dal i weithio i wella'r data hwn ynghyd ag eraill yn ymwneud â dioddefwyr troseddau casineb.

Roedd 52.7% o'r dioddefwyr yn 25-59 oed a 21.5% arall rhwng 18 a 24 oed. Ers 2007/08, mae'r gyfran o "oedran heb ei roi" wedi gostwng o 56.8% i 19.5%.

Parthed ethnigrwydd, mae'r gyfran ddatgelu wedi gwella o 25.6% yn 2007/08 i 51.2% yn 2012/13. Mae cynnydd yn digwydd ond yn amlwg mae llawer mwy i'w wneud gan bawb i wella'r agwedd hon o gasglu data.

## Perfformiad ardaloedd

Yn 2012/13, dangosir y tair Ardal a berfformiodd orau o ran cyfraddau collfarnu ar draws yr holl droseddau casineb homoffobaidd a thrawsffobaidd o'u cymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol yn Nhabl 8 isod:

**Tabl 8: Erlyniadau troseddau casineb homoffobaidd a thrawsffobaidd yn ôl canlyniad yn amlygu'r tair Ardal CPS sy'n perfformio orau o'u cymharu â ffigyrau cenedlaethol**

| | Collfarnau | | Aflwyddiannus | | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | |
| Cenedlaethol | 885 | 80.7% | 211 | 19.3% | 1,096 |
| Gogledd Ddwyrain Lloegr | 42 | 91.3% | 4 | 8.7% | 46 |
| Swydd Efrog a Glannau Humber | 63 | 91.3% | 6 | 8.7% | 69 |
| De Ddwyrain Lloegr | 61 | 87.1% | 9 | 12.9% | 70 |

Y tair Ardal a welodd gynnydd yn niferoedd y troseddau casineb Homoffobaidd a Thrawsffobaidd yn ystod y flwyddyn oedd: Cymru (25.6%) Glannau Mersi a Swydd Gaer (12.9%) a Thafwys a Chiltern (11.8%).

**Astudiaeth achos**

Cwpl hoyw oedd yr achwynwyr yn yr achos hwn oedd wedi bod yn cerdded trwy ganol y dref yng Ngogledd Cymru yn gynnar fin nos gyda mab un o’r dynion a’i fab bedydd. Ymosodwyd yn eiriol ar un dyn gan y diffynnydd (mam dyn oedd wedi cael ei gollfarnu am droseddau casineb yn ymwneud â mab yr achwynydd. Roedd yr achwynydd wedi rhoi tystiolaeth i gefnogi ei fab).

Aeth iaith y diffynnydd yn sarhaus a homoffobaidd. Roedd yn ymosodol iawn ac fe wnaeth fygwth y ddau ddyn â’r plant. Fe wnaeth hefyd fygwth rhoi adroddiad i’r heddlu am yr achwynwyr am ymosod ar ei mab.

Cafwyd y diffynnydd yn euog ac fe’i dedfrydwyd i orchymyn cymunedol chwe mis y gwnaeth y llys ddynodi a fyddai wedi bod yn ddirwy oni bai am y gwaethygiad homoffobaidd.

Roedd crynodeb yr achos yn tanlinellu natur homoffobaidd y drosedd a’r dull cywir o ran codi’r mater yn y llys ac yng nghyswllt dedfrydu h.y. pan fydd dedfryd euog, dylai’r rhai sy’n rhoi’r ddedfryd nodi beth fyddai’r ddedfryd heb y ffactor gwaethygol, ac yna’r ddedfryd ar ôl ystyried y ffactorau gwaethygol. Ar yr achlysur hwn, fe wnaeth y barnwr gyfeiriad o’r fath.

**Gweithio gyda’n gilydd**

Yn CPS Cymru, un enghraifft o ymlyniad penodol yw gwaith gyda Stonewall Cymru a sefydliadau LGB eraill a fforymau ar draws Cymru. Nod eithaf y gwaith oedd cynyddu hyder ymhlith cymunedau LGB yn y CPS ac asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill ac annog rhoi adroddiadau ar droseddau casineb homoffobaidd. Yr amcanion oedd codi ymwybyddiaeth o waith y CPS yn benodol o ran sut y mae’n ymdrin â throseddau casineb homoffobaidd a sut y mae dioddefwyr yn cael eu cefnogi trwy’r broses gyfiawnder droseddol. Mae’r ymlyniad hefyd yn rhoi cyfle i’r CPS gael gwell dealltwriaeth o’r rhwystrau sy’n atal rhoi adroddiad i gymunedau LGB ac i weithio mewn partneriaeth i oresgyn y rhain. Mae’r gwaith yn cynnwys rhannu a dadansoddi data troseddau casineb homoffobaidd; cynnal mentrau ar y cyd; codi ymwybyddiaeth o faterion sy’n bwysig i gymunedau LGB fel troseddau rhwydweithio cymdeithasol a chymryd rhan mewn digwyddiadau penodol fel Pride Gogledd Cymru a Mardi Gras Cymru Gyfan. Canlyniad y gwaith hwn yw gweld cynnydd yn y nifer o droseddau casineb homoffobaidd sy’n cael eu herlyn. Mewn ardaloedd lle mae’r perfformiad wedi sefydlogi, mae’r data yn cael ei ddadansoddi gan y CPS, yr heddlu a sefydliadau cymunedol i sicrhau ein bod yn deall ar y cyd pam bod hyn wedi digwydd. Enwodd Stonewall Cymru CPS Cymru fel y seithfed yn rhestr cyflogwyr addas i hoywon Cymru. Rhoddwyd EDCEM a HCC ar restr fer Gwobr Staff y CPS (enwebiad a gefnogwyd gan Stonewall Cymru).

**Gwersi a ddysgwyd**

Cyfarfu'r Panel Craffu Cenedlaethol ar Droseddau Casineb Trawsffobaidd ym Mawrth 2013 fel yr amlinellir uchod. Roedd y camau nesaf a ddynodwyd yn cynnwys:

- Rhoddwyd adborth unigol mewn llythyr personol gan y DPP i'r ardaloedd oedd wedi cyflwyno ffeiliau achos i'w hystyried gan y panel.
- Gwahoddwyd Prif Erlynyddion y Goron yr Ardaloedd i ystyried pa gamau, os o gwbl, fyddai'n cael eu cymryd o ganlyniad.
- Bydd adroddiad ar gynnydd yn cael ei gyflwyno i'r DPP ym mis Medi 2013.
- Yr Ardaloedd CPS dan sylw oedd: Glannau Mersi a Swydd Gaer, Gogledd Orllewin Lloegr, De Orllewin Lloegr, Wessex a Gorllewin Canolbarth Lloegr.

Enghreifftiau o'r camau gweithredu hyd yn hyn:

**CPS Glannau Mersi a Swydd Gaer**

**Ni wnaeth yr heddlu anfon achos ymlaen at y CPS i gael penderfyniad cyhuddo yn unol â Chyfarwyddyd y Cyfarwyddwr**

Mae Heddlu Swydd Gaer wedi rhoi cyfarwyddiadau i bob Sarsiant y ddalfa ac Arolygwyr bod raid i bob achos o droseddau casineb sy'n croesi'r prawf trothwy gael eu cyfeirio at y CPS i gael cyngor ar gyhuddo ac fe'u hatgoffwyd nad yw'n benderfyniad i'r Heddlu ar y cam hwn.

Yn ychwanegol, fe wnaeth yr Ardal yn ddiweddar gyrraedd nod siarter LGB/T Navajo Glannau Mersi a Swydd Gaer. Bydd hyn yn cefnogi'r Ardal wrth barhau i ddatblygu dulliau cynhwysol ac effeithiol o erlyn achosion o Droseddau Casineb Trawsrywiol.

**CPS Gorllewin Canolbarth Lloegr**

**Roedd yn ymddangos nad oedd y tîm gofal tystion yn cyfrannu. Dylai asesiad anghenion fod wedi cael ei gynnal yn gynnar yn y broses**

Dynodwyd gweithdrefnau yn cynnwys cyfryngwyr cyn ac ar ôl cyhuddo. Yn ychwanegol, mae WCU wedi cael cynnig hyfforddiant ymwybyddiaeth camau arbennig ar yr hyn y dylem fod yn ei drafod gyda dioddefwyr a bydd aide memoir yn cael ei ddatblygu i gynorthwyo gyda gofal tystion.

Yn ychwanegol, sefydlodd y CPS a Heddlu Gorllewin Canolbarth Lloegr Safonau Gwasanaeth newydd yn ymdrin â Throseddau Casineb gan gynnwys yr edefyn Troseddau Casineb Trawsffobaidd gyda chyfraniad aelodau Panel Craffu ac Ymlyniad lleol ac aelodau o'r gymuned.

Mae'r gwaith sy'n deillio o'r adolygiad i'r Cyfarwyddyd Rheoli Cydraddoldeb Trawsrywiol (TEMG) yn cael ei gyfuno ag argymhellion sy'n deillio o'r Panel Craffu Cenedlaethol a'u llunio yn un cynllun gweithredu cydlynol.

Cytunodd yr is-grŵp i'r Fforwm Atebolrwydd Cymunedol y byddan nhw'n goruchwylio gweithredu'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Trawsrywiol.

**Astudiaeth achos**

Roedd yr achos canlynol yng Ngogledd Swydd Efrog yn cynnwys 3 chyhuddiad: dau gyhuddiad o ymosod yn effeithio ar ddau ddioddefwr ac un o ddifrod troseddol i ddrws ffrynt a ffenestri'r dioddefwr. Plediodd y diffynnydd yn euog yn y gwrandawiad cyntaf i'r holl droseddau. Nid oedd crynodeb yr heddlu yn nodi, yn yr achos o ddifrod ac yn un o'r ymosodiadau, bod y diffynnydd wedi defnyddio iaith homoffobaidd. Yn ychwanegol, ni cheisiwyd unrhyw Gyngor Cyn Cyhuddo yn unol â Chyfarwyddyd y Cyfarwyddwr. Ond, fe wnaeth erlynydd arbenigol ar droseddau casineb sylwi ar yr elfen homoffobaidd yn ddiweddarach a gofyn i'r llys bennu eu bod yn wir yn droseddau homoffobaidd ac y dylai a.146 fod yn weithredol er gwaethaf protestiadau gan yr amddiffyniad.

Cytunodd y llys ac fe ohiriwyd popeth am Adroddiad Cyn Dedfrydu yn ystyried pob dewis a'r opsiwn i gryfhau'r ddedfryd dan adran 146 yn weithredol. Gwnaeth yr arbenigwr troseddau casineb yn siŵr bod yr erlynydd oedd yna i ddedfrydu yn nodi'r cynnydd yn y ddedfryd, a oedd yn 20 awr ychwanegol o waith di-dâl am yr ymosodiad ar un o'r dioddefwyr. Gorchymyn Cymunedol am 12 mis, Goruchwyliaeth am 12 mis, gyda gwaith di-dâl o 105 awr gan gynnwys 20 am y gwaethygiad, £50 o iawndal i'r ddau ddioddefwr, costau o £85 a £60 o Ordoll Dioddefwr.

# Troseddau casineb anabledd

Y gyfradd gollfarnu ar gyfer erlyniadau troseddau casineb anabledd yn 2012/13 oedd 77.2%, yr un fath yn fras â'r flwyddyn flaenorol ac yn agos iawn i'r gyfradd yn 2007/08 er bod cyfanswm yr erlyniadau dros y cyfnod wedi cynyddu o 183 i 640.

**Polisi/cyfarwyddyd cyfreithiol ar Droseddau Casineb Anabledd** - Adnewyddwyd polisi a chyfarwyddyd y CPS ar erlyn troseddau casineb anabledd ac fe'i cyfunwyd mewn un ddogfen a'u hadolygu yn ystod y flwyddyn. Ar ôl ymgynghori â Chydlynwyr Troseddau Casineb a Phrif Erlynyddion y Goron yn 2012, diwygiwyd y ddogfen hon i ystyried y ddeddfwriaeth bresennol a materion/argymhellion yn deillio o'r Arolygiad Cyfiawnder Troseddol ar y Cyd o Droseddau Casineb Anabledd a gyhoeddwyd ym Mawrth 2013. Mae rhai o'r newidiadau yn cynnwys:

- Ehangu'r bennod sy'n ymdrin â dynodi ac amlygu achosion o droseddau casineb anabledd i atgoffa erlynyddion o'r angen i weithio yn rhagweithiol gyda'r heddlu i gael rhagor o wybodaeth i helpu i ddynodi achosion pan fydd adran 146 yn berthnasol ac i sicrhau bod achosion yn cael eu hamlygu yn gywir ar CMS er mwyn gallu gwneud cais am ddwysau'r ddedfryd pan fydd hynny'n addas ac i'r canlyniad gael ei gofnodi.
- Atgoffir erlynyddion y dylai hysbysiad o'r bwriad i godi adran 146 gael ei roi cyn gynted ag sy'n bosibl, yn ddelfrydol yn y gwrandawiad llys cyntaf.
- Mae cyfeiriad at ystyriaeth o ba, os o gwbl, geisiadau gorchymyn ategol all fod yn addas ar ddiwedd yr achos, yn awr yn cael ei gynnwys yn y bennod adolygu achos i sicrhau bod hyn ym meddwl yr erlynydd yn ystod y cam hwn, ac i sicrhau bod y mater yn cael ei adolygu yn barhaus.
- Mae'r bennod dioddefwyr a thystion yn awr yn atgoffa erlynyddion, pan wneir penderfyniad am yr achos sy'n cael y canlyniad na fydd y dystiolaeth o waethygiad (yr elfen adran 146 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003) bellach yn cael ei chyflwyno i'r llys, y dylid anfon llythyr at y dioddefwr, er nad oes newid i'r cyhuddiad.

**Cynllun Gweithredu Troseddau Casineb Anabledd –** yn ymateb i ymchwiliad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i aflonyddu sy'n ymwneud ag anabledd ag arolygiad thematig y CJJI, datblygwyd a chafwyd trefn derfynol ar gynllun gweithredu sy'n nodi ystod o ymrwymiadau a fydd yn cael eu goruchwylio gan y Fforwm Atebolrwydd Cymunedol.

**Gweithdy Teithwyr** – prosiect ar y cyd â Chydlynwyr Troseddau Casineb o CPS Cymru a CPS Gogledd Orllewin Lloegr a fwriadwyd i ymdrin â phroblem diffyg adroddiadau ac yn benodol y diffyg ymwybyddiaeth o'r hyn y mae troseddau casineb anabledd yn ei olygu. Roedd y gynulleidfa darged yn gyffredinol ac arbenigol gyda nifer o unigolion cyswllt cyntaf fel gweithwyr iechyd a swyddogion tai yn ogystal ag asiantaethau cyffredinol ac arbenigol, DPO ac elusennau anabledd cenedlaethol. Cylchredwyd deunydd y gweithdy, gan gynnwys gwybodaeth i staff asiantaeth sy'n wynebu'r cyhoedd (a ddatblygwyd gyda chyfraniad y cynrychiolwyr yn y gweithdy) i Ardaloedd CPS gyda gwahoddiad i'w cynnwys yn eu gwaith ar ymdrin â diffyg rhoi adroddiadau yn y flwyddyn nesaf.


**Ymarfer olrhain ACPO/CPS** – fel y nodwyd y llynedd, fe wnaeth y gostyngiad yn y nifer a gyfeiriwyd gan yr heddlu arwain at drafodaeth rhwng y DPP ac arweinydd Troseddau Casineb ACPO a chytundeb wedyn i olrhain achosion o droseddau casineb o'r adroddiad ar y digwyddiad i'r canlyniad terfynol. Cytunodd nifer o Ardaloedd CPS i gymryd rhan a gofynnwyd i'r lluoedd heddlu perthnasol gymryd rhan. Bydd adroddiad terfynol ar gael erbyn diwedd 2013.

## Ystadegau a thablau wedi eu cyfuno

Gostyngodd y nifer o achosion a gyfeiriwyd at y CPS gan yr heddlu i gael penderfyniad cyhuddo yn 2012/13 i 579 o 643 yn 2011/12. Gwelwyd gostyngiad hefyd yn y gyfradd o benderfyniadau i gyhuddo'r llynedd i 65%, ar ôl tair blynedd ar 70.0% yn fras ar gyfer pob cyfeiriad o'r fath. Gostyngodd cyfanswm yr erlyniadau a gwblhawyd o 621 yn 2011/12, i 640 yn 2011/12.

Cynyddodd y nifer o erlyniadau ychydig dros y flwyddyn ac fe wnaeth y gyfran o ganlyniadau llwyddiannus aros yn gymharol debyg ar 77.2% fel y flwyddyn flaenorol. Mae Graff 6 yn dangos y duedd mewn cyfraddau collfarnu ers 2007/08.

**Graff 6: Cyfanswm cyfraddau collfarnu troseddau casineb anabledd 2007/08 hyd 2012/13**




Yn aml bydd collfarnau llwyddiannus yn deillio o bleon euog ac fe welwyd gostyngiad bychan yn y flwyddyn adrodd o 424 i 418 ac roedd gostyngiad fel cyfran o ganlyniadau llwyddiannus o 68.3% i 65.3%.

Mae Tabl 9 yn dangos sut, ers 2007/08, y mae cyfanswm y nifer o erlyniadau a aeth ymlaen wedi codi, cyrraedd copa ac yna wedi aros yn wastad mae'n ymddangos, yn adlewyrchu efallai'r nifer cyffredinol isel o droseddau casineb y cafwyd adroddiadau arnynt.

**Tabl 9 - Erlyniadau a gwblhawyd yn ôl canlyniad**

| | | Collfarnau | Aflwyddiannus | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 2007 - 08 | Nifer | 141 | 42 | 183 |
| | % | 77.00% | 23.00% | |
| 2008 - 09 | Nifer | 299 | 94 | 393 |
| | % | 76.10% | 23.90% | |
| 2009 - 10 | Nifer | 483 | 155 | 638 |
| | % | 75.70% | 24.30% | |
| 2010 - 11 | Nifer | 579 | 147 | 726 |
| | % | 79.80% | 20.20% | |
| 2011 - 12 | Nifer | 480 | 141 | 621 |
| | % | 77.30% | 22.70% | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2012 - 13 | Nifer<br>% | 494<br>77.20% | 146<br>22.80% | 640 |

Arhosodd y gyfran o achosion a fethodd oherwydd materion dioddefwyr yr un fath yn fras ers 2007/08 pan oedd yn 21.4% o'i gymharu â 21.2% y llynedd. Ond, er bod y gyfran o achosion aflwyddiannus yn fras yr un fath, mae'r nifer cyffredinol wedi cynyddu o 9 i 31 dros yr un cyfnod.

Ar ddiwedd erlyniad, mae achosion yn cael **prif gategori trosedd** i ddangos math a difrifoldeb y cyhuddiadau a wnaethpwyd. Troseddau yn erbyn yr unigolyn a throseddau trefn gyhoeddus oedd y mwyaf cyffredin yn cynrychioli 54.6% o'r holl erlyniadau troseddau casineb anabledd (47.2% a 7.4% yn y drefn honno). Roedd yna ystod fwy arwyddocaol o gategorïau troseddau eraill a gynrychiolwyd o fewn erlyniadau troseddau casineb anabledd nag ar gyfer unrhyw edefyn arall o droseddau casineb (gweler Tabl 4) o bosibl yn adlewyrchu tuedd i fanteisio mewn llawer o droseddau casineb anabledd.

**Tabl 10: Prif gategori trosedd ar gyfer pob edefyn troseddau casineb**

| Categori'r brif drosedd | Anabledd | Homoffobaidd a Thrawsffobaidd | Troseddau wedi eu gwaethygu gan Hiliaeth a Chrefydd |
|---|---|---|---|
| Lladdiad | 0.5% | 0.4% | 0.1% |
| Troseddau yn erbyn yr unigolyn | 47.2% | 51.8% | 50.0% |
| Troseddau rhywiol | 5.2% | 1.2% | 0.3% |
| Byrgleriaeth | 6.0% | 1.0% | 0.7% |
| Lladrad | 11.6% | 2.2% | 0.8% |
| Dwyn a Thrin | 10.6% | 1.5% | 3.4% |
| Twyll a Ffugiad | 4.1% | 0.2% | 0.1% |
| Difrod Troseddol | 3.1% | 4.0% | 5.4% |
| Troseddau Cyffuriau | 1.3% | 0.6% | 1.0% |
| Troseddau Trefn Gyhoeddus | 7.4% | 31.6% | 31.7% |

Mae'r rhan fwyaf o'r **diffynyddion** yn ddynion (76.9%), ond erlynwyd cyfran sylweddol uwch o fenywod (23.0%) o gymharu ag edefynnau eraill troseddau casineb (16.5% mewn troseddau casineb a waethygwyd gan hiliaeth a chrefydd a 14.0% mewn troseddau casineb homoffobaidd a thrawsffobaidd). Roedd y rhan fwyaf o ddiffynyddion yn Wyn Prydeinig (75.3%) a'r rhai rhwng 25 a 59 oed yn cyfrif am 57.3% ac roedd 24.8% arall rhwng 18 a 24 oed. Mae o ddiddordeb bod y gyfran o rai 10-13 oed a 14-17 oed oedd yn ddiffynyddion wedi gostwng o 4.9% a 23.5% yn y drefn honno yn 2007/08 i 1.7% a 12.5% yn 2012/13.

Yr hyn a wyddom ynglŷn â'r **dioddefwyr** yw bod 40.6% yn ddynion a 36.9% yn fenywod tra nad oedd 22.5% wedi nodi eu rhyw. Roedd y rhan fwyaf o'r dioddefwyr (40.3%) rhwng 25 a 59 oed. Mae'r gyfradd ddatgan ar gyfer oed wedi gwella o 43.7% yn 2007/08 i 74.4% y llynedd.

O ran ethnigrwydd y dioddefwyr, mae'r gyfradd ddatgan wedi gwella ers 2007/08, pan oedd yn (28.5%) i 49.7% gyda Gwyn Prydeinig yn gategori mwyaf cyffredin ar 44.3%.  Ond mae angen rhagor o waith i wella data dioddefwyr.

# Perfformiad ardaloedd

Yn 2012/13, dangosir y tair Ardal a berfformiodd orau o ran cyfraddau collfarnu ar draws yr holl droseddau casineb anabledd o'u cymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol yn Nhabl 11 isod:

**Tabl 11: Erlyniadau troseddau casineb anabledd yn ôl canlyniad gan amlygu'r tair Ardal CPS sy'n perfformio orau o'u cymharu â ffigyrau cenedlaethol**

| | Collfarnau | | Aflwyddiannus | | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | |
| Cenedlaethol | 494 | 77.2% | 146 | 22.8% | 640 |
| Swydd Efrog a Glannau Humber | 38 | 92.7% | 3 | 7.3% | 41 |
| Dwyrain Canolbarth Lloegr | 22 | 88.0% | 3 | 12.0% | 25 |
| De Orllewin Lloegr | 30 | 83.3% | 6 | 16.7% | 36 |
| Wessex | 15 | 83.3% | 3 | 16.7% | 18 |

Yr Ardaloedd CPS a welodd y cynnydd mwyaf mewn erlyniadau troseddau casineb anabledd yn 2012/13 oedd y Gogledd Orllewin (139.3%) y Gogledd Ddwyrain (40.0%) a'r De Ddwyrain (33.3%).

**Gweithio gyda'n gilydd**

Roedd y Cydlynydd Troseddau Casineb Ardal ac EDCEM yn bryderus am y diffyg cyflwyno adroddiadau ar droseddau casineb anabledd yng Nghumbria, yn arbennig o ystyried cefndir adroddiad a gynhyrchwyd gan CPS y Gogledd Orllewin, Cefnogaeth i ddioddefwyr, Heddlu Cumbria, Rhwydwaith Anabledd Cumbria, Prifysgol Central Lancashire, Mencap a Chyngor Cumbria oedd yn tynnu sylw at y diffyg cyflwyno adroddiadau yng nghyswllt digwyddiadau casineb anabledd a thystiolaeth bod troseddau casineb yn llawer mwy cyffredin nag yr oedd yr adroddiadau yn awgrymu. Arweiniodd yr adroddiad at Gynhadledd Troseddau Casineb Anabledd gyntaf erioed Cumbria, a ddatblygwyd mewn partneriaeth â nifer o bartneriaid gan gynnwys Cefnogaeth i Ddioddefwyr Cumbria, Cymdeithas Anabledd Caerliwelydd ac 'Eden and Cumbria People First.' Cynhaliwyd y Gynhadledd ym mis Gorffennaf a daeth dros 110 o bobl yno. Cynigiodd y gynhadledd gyfle i rannu'r Adroddiad Troseddau Casineb Anabledd a gynhyrchwyd gan y bartneriaeth ac ymgynghori ar y canfyddiadau yn ogystal â dynodi camau oedd angen eu cymryd. Arweiniodd yr adroddiad, y gynhadledd a'r ymgynghoriad at ddatblygu cynllun gweithredu CPS a Heddlu Cumbria yn Hydref 2012. Mae'r rhan gyntaf ohono yn ymwneud â chodi ymwybyddiaeth yng Nghumbria. Mae hynny ar y gweill ar hyn o bryd gydag ymgyrch radio sydd wedi ei ariannu'n rhannol gan yr heddlu a'r CPS. Rhoddwyd sylw eang i'r ymgyrch.

**Astudiaeth achos**

Dyn 66 oed a ddioddefodd strôc yn 2001 yw'r dioddefwr yn yr achos hwn, gan ei adael wedi ei barlysu ar eich ochr chwith a niwed i'r llabed blaen. Mae'n byw gartref gyda'i deulu ac yn cael pecyn gofal gan Wasanaethau Gofal Oedolion. Roedd y diffynnydd wedi ei gyflogi gan Asiantaeth Gofal yn un o'i ofalwyr.

Aeth y diffynnydd a chydweithiwr arall â'r dioddefwr i gael cawod ond fe gollodd ei thymer pan ddaeth yn amlwg nad oedd am gael cawod. Cododd ben y gawod a mynd ymlaen i chwistrellu dŵr yn uniongyrchol i'w wyneb, gan ymosod yn eiriol arno. Fe wnaeth hyn nifer o weithiau cyn i'w chydweithiwr ddweud wrthi am stopio.

Roedd y diffynnydd yn gwadu chwistrellu dŵr dros wyneb y dioddefwr ac yn gwadu ymosod yn eiriol arno, er na allai feddwl am unrhyw reswm y byddai ei chydweithiwr wedi creu honiad o'r fath yn ei herbyn. Cyhuddwyd hi o guro a cham-drin/esgeuluso bwriadol ar unigolyn heb allu meddyliol.

Pennwyd nad oedd y dioddefwr mewn cyflwr addas i roi datganiad fideo oherwydd y niwed i'w ymennydd a'i ddiffyg gallu. Gofynnodd yr heddlu felly am Asesiad Gallu Meddyliol llawn. Er gwaethaf anallu'r dioddefwr i roi datganiad, fe wnaeth y swyddogion ddal ati i ymchwilio. Roedd y dystiolaeth allweddol, wrth gwrs, yn dod gan y cydweithiwr ac fe wnaeth yr heddlu ymholiadau i sefydlu a oedd ganddo unrhyw gymhelliad i roi adroddiad nad oedd yn wir i gyd ar yr hyn a ddigwyddodd. Ni chanfuwyd unrhyw gymhelliad o'r fath ac roedd yn amlwg ei fod wedi rhoi adroddiad am y digwyddiad yn brydlon.

Cyhuddwyd y diffynnydd, ac fe wnaeth wadu'r ddwy drosedd. Mae'r cyhuddiad o gam-drin/esgeuluso yn fwriadol ar unigolyn heb allu meddyliol yn drosedd y naill ffodd neu'r llall a gafodd ei gwadu ac felly dylid bod wedi ceisio cyngor ar gyhuddo gan y CPS, ond ni wnaed hynny yn yr achos hwn.

Mae'r ffeil llys wedi ei marcio fel bod yr eiriolwr fydd yn ymdrin â'r achos wrth ddedfrydu yn medru atgoffa'r llys o'r cynnydd yn y ddedfryd oedd i gael ei weithredu.

Aeth cydweithiwr y diffynnydd i'r llys a rhoi tystiolaeth. Daeth yr ynadon i'r casgliad ei fod yn dyst credadwy ac nad oedd ganddo gymhelliad dros greu'r hyn a ddigwyddodd a'i fod wedi rhoi adroddiad ar y digwyddiad yn brydlon. Nid oedden nhw'n derbyn y disgrifiad a roddwyd gan y diffynnydd ac fe'i collfarnwyd am y ddwy drosedd a'i dedfrydu: 12 wythnos yn y ddalfa am y ddwy drosedd i gydredeg, wedi eu gohirio am 12 mis. Rhoddwyd gorchymyn goruchwylio am 12 mis hefyd gyda gweithgaredd penodol y byddai'n rhaid i'r diffynnydd gydymffurfio ag ef, costau o £180 a Gordreth dioddefwr o £80.

**Astudiaeth achos**

Mae gan yr achwynydd anabledd dysgu ac mae'n byw mewn cynllun tai cysgodol yng Ngogledd Swydd Efrog. Rhoddodd adroddiad i'r heddlu bod y diffynnydd wedi gorfodi ei ffordd i'r byngalo, mynd i'r ystafell wely a dwyn ei waled yn cynnwys £200 mewn arian parod a thocyn bws. Roedd yr achwynydd yn adnabod y diffynnydd ac roedd wedi ymweld â'i fyngalo yn y gorffennol. Gadawodd y diffynnydd gap pel-fâs llwyd yn yr ystafell wely. Arestiwyd y diffynnydd yn nes ymlaen â £110 mewn arian parod yn ei feddiant. Roedd yn gwadu byrgleriaeth ond yn cyfaddef ei fod wedi ymweld â'r achwynydd. Fe wnaeth yr achwynydd adnabod y diffynnydd mewn gorymdaith adnabod fel y dyn oedd yn gyfrifol.

Ar ddiwrnod yr achos llys plediodd y diffynnydd yn ddieuog i fyrgleriaeth ond yn euog o ddwyn. Cyfarfu'r cwnsler â'r dioddefwr ac esbonio hyn o flaen ei weithiwr cefnogi a'r cyfryngwr. Cytunodd pawb y dylid derbyn y ple o ystyried pryderon am iechyd y dioddefwr (ymosodiad asthma posibl oherwydd y straen o roi tystiolaeth) a'r ffaith y byddai'r amddiffyniad yn honni bod y dioddefwr yn adnabod y diffynnydd ac wedi ei wahodd i'w dŷ.

Gwnaed cais llwyddiannus i'r achwynydd gael cymorth yn y llys gan gyfryngwr cofrestredig oherwydd natur ei anabledd dysgu.

Roedd y ddedfryd yn cynnwys carchariad am 3 mis a ohiriwyd am 2 flynedd, 200 awr o waith di-dâl, rhaglen adfer cyffuriau am 6 mis ac iawndal o £200.  Am dorri dedfryd ohiriedig flaenorol ychwanegwyd 3 mis at y gorchymyn.

**Gwersi a ddysgwyd**

O CPS Dwyrain Lloegr, roedd adborth a dderbyniwyd gan aelodau'r Panel Craffu ac Ymlyniad (LSIP) yn tanlinellu eu pryderon bod llythyrau Cyswllt Uniongyrchol gyda Dioddefwyr yn cael eu hysgrifennu mewn modd cyfreithiol iawn a allai fod yn anos i ddioddefwyr a thystion gydag anableddau dysgu neu broblemau iechyd meddwl i'w deall. O ganlyniad, comisiynodd yr Ardal asiantaeth allanol arbenigol i baratoi set o fersiynau 'Saesneg Clir' o brofforma llythyrau cyswllt uniongyrchol.

O'r gwaith cychwynnol hwn, cynhyrchodd Cydlynwyr Fforwm Troseddau Casineb yr Ardal ddogfen gyfarwyddyd i'w gweithredu ar draws yr Ardal ar ddefnyddio llythyrau 'Saesneg Clir' wrth gyfathrebu â dioddefwyr a thystion gydag anableddau dysgu neu gyda phroblemau iechyd meddwl. Ystyriwyd y ddogfen gyfarwyddyd hon gan Bwyllgor Gwaith Achos yr ardal yn ei gyfarfod ym Mawrth 2013, ac mae yn y broses o gael ei chyflwyno i holl erlynyddion a thimau erlyn Dwyrain Lloegr.

# Ysgogi casineb

Mae troseddau casineb yn canolbwyntio ar elyniaeth neu ragfarn yn erbyn y grwpiau dan sylw. Mae gelyniaeth yn cael ei ddefnyddio yn ei ystyr arferol, bob dydd ac mae ei ddiffiniad yn y geiriadur yn awgrymu dymuno'r gwaethaf, diffyg cyfeillgarwch, malais, casineb, rhagfarn, dicllondeb a drwg hoffi. Ond mae'r troseddau trefn gyhoeddus o ysgogi casineb yn canolbwyntio ar gasineb ei hun a'r bwriad neu effaith tebygol y drosedd dan sylw. Dyma'r ail flwyddyn i ni roi adroddiad ar yr erlyniadau yma ac mae'r diddordeb yn y maes hwn o'n gwaith yn parhau.

## Y Data

Yng ngoleuni'r gwrthdaro posibl gyda hawl unigolyn i ryddid mynegiant ac i lefaru, mae, mewn gwirionedd, safon uwch o brawf o effaith mewn achosion o ysgogi. Un o ganlyniadau hyn yw bod nifer yr achosion o ysgogi yn llawer is nag ar gyfer troseddau casineb.

Er bod nifer o achosion wedi cael eu cyfeirio at yr Isadran Troseddau Arbennig a Gwrthderfysgaeth gan Ardaloedd CPS yn uno â Chyfarwyddyd Cyfreithiol y CPS ar Erlyn Achosion o Droseddau Hiliol neu Grefyddol, nid oedd unrhyw un yn bodloni'r Prawf Cod ar gyfer erlyn fel troseddau Rhan 3 Deddf Trefn Gyhoeddus (1986).

Bydd achosion sy'n cael eu cyfeirio yn gyntaf fel digwyddiadau posibl o ysgogi/annog casineb, yn cael eu hasesu yn ganolog ac os nad yw'r dystiolaeth yn cefnogi erlyniad dan y darpariaethau hyn, gellir eu dychwelyd i Ardaloedd gyda'r awgrym y dylid dilyn dewisiadau eraill. Yng nghyswllt erlyniadau sy'n ymwneud â chyfathrebiadau a anfonwyd trwy gyfryngau cymdeithasol, gall hyn olygu bod y fframwaith statudol priodol wedi cael ei roi gan ddeddfwriaeth arall. Gweler yr astudiaeth achos isod am enghreifftiau.

Gellir gweld mwy o fanylion am achosion sydd wedi cael eu herlyn mewn blynyddoedd blaenorol yn y datganiadau i'r wasg cysylltiedig ar dudalennau'r Adran Gwrthderfysgaeth ar wefan y CPS.

**Astudiaeth Achos** – Yn dilyn llofruddiaeth milwr Prydeinig yn Woolwich ar 21 Mai 2013 fe wnaeth y diffynnydd roi nifer o negeseuon tramgwyddus ar Facebook gan gynnwys gwahodd pobl i losgi mosgiau gyda hi. Aeth y negeseuon at o leiaf 495 o bobl ar Facebook.

Cyhuddwyd y diffynnydd dan adran 127(1)(a) Deddf Cyfathrebiadau Maleisus. Plediodd yn euog yn y gwrandawiad cyntaf yn y Llys Ynadon a dedfrydwyd hi i 8 wythnos o garchar gohiriedig am anfon negeseuon Facebook tramgwyddus.

**Astudiaeth achos**

Gosododd y diffynnydd osodiad ar ei dudalen Facebook yn syth ar ôl clywed am farwolaeth 6 milwr yn Afghanistan, gan gymharu'r ymateb i farwolaeth y milwyr i'r un i farwolaeth pobl Afghanistan. Aeth y gosodiad ymlaen i drafod milwyr mewn geiriau sarhaus. Yn ychwanegol, roedd llun ar y dudalen o deulu marw o bobl Afghanistan gyda'r sylw: "Dyma pam y dylai eich milwyr losgi yn uffern" a "Bydd Islam yn rheoli'r byd".

Daeth y drosedd i'r golwg oherwydd sylw a wnaed gan unigolyn a welodd sylw yn beirniadu'r gosodiad. Chwiliodd y tyst am y gosodiad ac fe wnaeth beri gofid iddo. Disgrifiodd mam un o'r milwyr a laddwyd ei bod yn teimlo yn ddigofus iawn wedi gweld y gosodiad.

Gwrthodwyd y drosedd o ysgogi casineb hiliol ac annog llofruddiaeth ac yn hytrach cyflwynwyd cyhuddiad yn groes i adran 127 Deddf Cyfathrebiadau 2003 ger bron y llys.

Bu dadl gyfreithiol yn y llys a oedd y neges yn eithafol o dramgwyddus. Daeth y llys i'r casgliad ei fod a chollfarnwyd y diffynnydd ar ôl achos llys llawn. Fe'i dedfrydwyd i orchymyn cymunedol 2 flynedd, 2 flynedd o oruchwyliaeth, 240 awr o waith di-dâl 50 diwrnod o weithgaredd ar lefel uchel a £300 o gostau.

**Astudiaeth Achos**

Rhoddodd y diffynnydd yn yr achos hwn sylwadau hiliol ac ymosodol pan wnaeth y pêl-droediwr, Fabrice Muamba, lewygu ar gae pêl-droed, yn ystod gêm Cwpan yr FA oedd yn cael ei darlledu ar y teledu. Dioddefodd y pêl-droediwr ataliad ar y galon yn ystod y gêm ac er iddo gael ei adfer wedyn roedd ei galon wedi peidio curo am dros awr. Ymateb y cyhoedd yn gyffredinol oedd sioc ac yna emosiwn wrth i'r chwaraewr wella oedd yn cynnwys dicter at y diffynnydd. Cyfeiriwyd yr achos yn wreiddiol fel un o ysgogi casineb hiliol posibl ond fe'i cyfeiriwyd yn ôl at yr Ardal ar y sail, er bod yr iaith a ddefnyddiwyd yn sarhaus, nad oedd yn debygol o ysgogi casineb hiliol, yn arbennig o ystyried ymateb y cyhoedd i'r digwyddiad. Cyhuddwyd y diffynnydd o fwriad i achosi aflonyddwch, ofn neu bryder wedi ei waethygu gan hiliaeth dan Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986. Plediodd y diffynnydd yn euog a rhoddwyd dedfryd o garchar am 56 diwrnod iddo yn syth.

# Troseddau yn erbyn pobl hŷn

